LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
CYFRIFON BLYNYDDOL 2015/16

Cynnwys

	Tudalen
Manylion Gweinyddol a Chyfeirio	2
Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu	
Datganiad Llywodraethiant (yn cynnwys strwythur a rheolwyr)	4
Amcanion a Gweithgareddau	9
Cyflawniad a Pherfformiad	11
Adolygiad Ariannol	14
Adroddiad Cynaliadwyedd	17
Polisïau yn ymwneud â staffio	18
Cynlluniau ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol	20
Datganiad Cyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Llyfrgellydd	21
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru	22
Datganiad Gweithgareddau Ariannol	24
Y Fantolen	25
Llif Arian	26
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	27

MANYLION GWEINYDDOL A CHYFEIRIO

Roedd yr ymddiriedolwyr (at ddibenion cyfraith elusennau) a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ac ers i'r flwyddyn ddod i ben fel a ganlyn:-

Y Rhai a Benodwyd gan y Gweinidog:

Syr Deian Hopkin - daeth ei dymor i ben ar 30 Tachwedd 2015 (Llywydd)
Arglwydd Aberdâr
Tricia Carter (Is-lywydd)*
Roy Evans*
Phil Cooper*
Susan J. Davies
Huw Williams*
Rhodri Glyn Thomas - penodwyd 6 Ebrill 2016 (Llywydd)
Elizabeth Siberry – penodwyd 1 Tachwedd 2015

Y Rhai a Benodwyd gan y Llyfrgell Genedlaethol:

Colin R. John (Trysorydd)*
Michael Trickey
Roy Roberts
D. Hugh Thomas
Dyfrig Jones – penodwyd 1 Tachwedd 2015
Iwan Davies - penodwyd 1 Rhagfyr 2015
Richard Houdmont – penodwyd 1 Rhagfyr 2015
Gareth Haulfryn Williams - daeth ei dymor i ben ar 30 Tachwedd 2015
Enid Morgan - daeth ei thymor i ben ar 30 Tachwedd 2015
Wyn Penri Jones* - daeth ei dymor i ben ar 30 Tachwedd 2015

* Yn aelodau hefyd o'r Pwyllgor Archwilio

Dyma aelodau'r Tîm Gweithredol ar 31 Mawrth:

Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a'r Swyddog Cyfrifyddu
Linda Tomos BLib MCLIP

Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol
David H Michael CPFA, MCIPS

Cyfarwyddwr Casglu a Rhaglenni Cyhoeddus (tan 31 Mawrth 2016)
Avril Jones BA, DipLib, AMInstLM

Ysgrifennydd a Phennaeth Llywodraethiant
Pedr ap Llwyd JP BA MA DAA MCIPD *Siartredig*

Cynghorwyr

Bancwyr	Banc National Westminster, Sgwâr Owain Glyndŵr Aberystwyth Ceredigion SY23
Cyfreithwyr	Geldards LLP, Tŷ Dumfries Plas Dumfries Caerdydd CF10 3ZF Humphreys Robert & Bott Blwch Post 7 1 Maes Alfred Aberystwyth Ceredigion SY23 2BS Blake Morgan Bradley Court Plas y Parc Caerdydd CF10 3DR
Archwilwyr Allanol	Swyddfa Archwilio Cymru 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ
Archwilwyr Mewnol	RSM Ystafell 205 Tŷ Regus Malthouse Avenue, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd CF23 8RU
Broceriaid Buddsoddi	Investec Wealth & Investment 30 Gresham Street, Llundain EC2V 7QN
Cyngor Actiwaraidd ac ar Bensiynau	Willis Towers Watson 2 Lochrin Square, 96 Fountainbridge Caeredin, EH3 9QA

Rhif cofrestru'r elusen	525775
Rhif TAW	905190437

Cyfeiriad Cofrestredig

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU.

Treth Gorfforaeth

Mae'r Llyfrgell wedi'i heithrio rhag talu Treth Gorfforaeth o dan adran 505 o Ddeddf Treth Incwm a Threth Gorfforaeth 1998.

ADRODDIAD BLYNYDDOL YR YMDDIRIEDOLWYR A'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys y Sylwadau Rheoli, yr Adroddiad Taliadau a'r Datganiad Llywodraethiant. Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r Cyfarwyddyd a luniwyd gan Weinidogion Llywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys o dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992.

1 DATGANIAD LLYWODRAETHIANT

1.1 Dogfen Lywodraethiant a Chefndir Statudol

Sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ('y Llyfrgell') drwy Siarter Frenhinol ar 19 Mawrth 1907. Dyfarnwyd Siarteri Atodol yn 1911 ac yn 1978, gyda mân ddiwygiadau cyfansoddiadol. Ar 19 Gorffennaf 2006, rhoddwyd Siarter Atodol newydd i'r Llyfrgell gan Frenhines Elizabeth II. Newidiodd Siarter Atodol 2006 gyfansoddiad llywodraethiant y Llyfrgell yn sylweddol a chydnabu datganoli'r llywodraeth o San Steffan i Gymru. Yn y gorffennol roedd gennym Lys o Lywodraethwyr a Chyngor, ond nawr mae gennym Fwrdd o Ymddiriedolwyr.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru hefyd yn elusen gofrestredig (rhif cofrestredig: 525775) ac yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Rhaid iddi felly weithredu fel: (a) sefydliad Siarter Frenhinol ac Elusen Gofrestredig o'r radd flaenaf a (b) corff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r natur ddeublyg hon yn llywodraethu sut mae'n gweithredu ac yn cyflawni ei rôl a'i rhwymedigaethau, ac mae'n gofyn ei bod yn cadw cydbwysedd gofalus rhwng mynd ar drywydd a chyflawni (a) 'gwrthrychau' ei Siarter a'i statws Elusennol, sy'n adlewyrchu ei diben sylfaenol a (b) egwyddorion llywodraethiant hyd braich.

1. 2 Y Fframwaith Llywodraethiant

Mae'r Datganiad Llywodraethiant hwn yn rhan o Fframwaith Llywodraethiant y Llyfrgell. Mabwysiadwyd y Fframwaith Llywodraethiant ffurfiol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Medi 2013, ynghyd â 'Fframwaith Sicrwydd sy'n ymwneud â Rheoli Risg'. Mae'r Fframwaith yn nodi prif gyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a Thîm Gweithredol y Llyfrgell; pwerau dirprwyo'r Bwrdd; yr ymddygiad a ddisgwylir gan y Bwrdd; a thrafodion y Bwrdd.

1.3 Recriwtio a phenodi ymddiriedolwyr

Mae gan Fwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell 15 ymddiriedolwr. Penodir wyth ymddiriedolwr gan Lywodraeth Cymru a saith gan y Llyfrgell. Mae'r ymddiriedolwyr yn cynnwys tri Swyddog y Llyfrgell - y Llywydd, yr Is-lywydd a'r Trysorydd. Penodir y Llywydd a'r Is-lywydd gan Lywodraeth Cymru a'r Trysorydd gan y Llyfrgell. Penodir yr ymddiriedolwyr yn unol ag egwyddorion dethol agored fel yr argymhellir yn Adolygiad Nolan.

1. 4 Sefydlu a hyfforddi ymddiriedolwyr

Mae pawb a benodir o'r newydd yn dilyn rhaglen sefydlu, a ategir gan lawlyfr llywodraethiant ategol cynhwysfawr, a hynny yn fuan ar ôl cael eu penodi. Nid yw'r aelodau yn cael tâl. Mae holl aelodau'r Bwrdd yn cael cyfle i gael hyfforddiant sefydlu priodol a hyfforddiant arall. Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr weithredu er budd yr elusen yn unig a pheidio â gweithredu fel cynrychiolwyr sectorau neu grwpiau budd arbennig na'r sawl sydd wedi'u penodi.

1.5 Perthynas â Llywodraeth Cymru

Caiff y berthynas rhwng y Llyfrgell a Llywodraeth Cymru ei rheoleiddio gan 'Ddogfen Fframwaith' a baratowyd gan MALD: yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd yn 2010. Mewn ymgynghoriad â'r Llyfrgell Genedlaethol, mae'r ddogfen yn nodi manylion y telerau ac amodau sy'n amodi pryd y caiff Gweinidogion Cymru roi cymorth grant i'r Llyfrgell.

Caiff cydymffurfiaeth â'r Ddogfen Fframwaith ei monitro gan adran nawdd y Llyfrgell yn Llywodraeth Cymru, sef MALD: Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ag un o Weinidogion Cymru y mae ei bortffolio yn cynnwys cyfrifoldeb am y Llyfrgell a'i swyddogion.

1.6 Dirprwyo

Er mai'r Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol yn y pendraw am bopeth y mae'r Llyfrgell yn ei wneud, oherwydd statws anweithredol y Bwrdd mae rheolaeth weithredol y Llyfrgell o ddydd i ddydd yn cael ei dirprwyo i'r Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd, sef Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Llyfrgell hefyd, i alluogi'r Llyfrgell i gyflawni ei chyfrifoldebau'n briodol ac yn effeithiol. Ond mae rhai materion yn parhau yn gyfrifoldeb y Bwrdd, sef:

- sicrhau bod y Llyfrgell yn cyflawni ei hamcanion, dyletswyddau a swyddogaethau cyffredinol ac yn arfer yn briodol y pwerau cyfreithiol sydd wedi'u rhoi iddi, o dan Ddeddf Elusennau 2011 a deddfwriaeth arall;
- pennu cyfeiriad strategol cyffredinol y Llyfrgell o fewn yr adnoddau sydd ar gael;
- monitro perfformiad y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd a'i thîm, eu dal i gyfrif wrth iddynt arfer eu pwerau dirprwyedig a chyflawni yn erbyn cynlluniau a chyllidebau;
- hyrwyddo a diogelu enw da ac uniondeb y Llyfrgell;
- sicrhau safonau uchel o ran llywodraethiant sy'n ennyn hyder aelodau'r cyhoedd i gyd, rheoleiddiwr a noddwyr y Llyfrgell yn ogystal â'i staff.

1.7 Cyfarfodydd y Bwrdd

Yn 2015-16, cynhaliwyd pum cyfarfod y Bwrdd a drefnwyd ymlaen llaw ac un cyfarfod arbennig. O gyfanswm posibl o 75 cyfle i aelodau fod yn bresennol, cafwyd 71. Mae cofnodion y Bwrdd yn cael eu cyhoeddi ac maent ar gael ar wefan y Llyfrgell. Mae'r Bwrdd o'r farn bod y wybodaeth a'r data a roddwyd gan y Tîm Gweithredol yn ddigonol iddo gyflawni ei gyfrifoldebau.

1.8 Is-bwyllgor

Mae gan y Bwrdd ddau bwyllgor sefydlog, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad. Diffinnir cwmpas y ddau Bwyllgor yn eu Cylch Gorchwyl.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cwmpasu holl anghenion sicrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn ymwneud â gwaith yr Archwilydd Mewnol a gwaith yr Archwilydd Allanol a materion yn ymwneud ag adroddiadau ariannol.

Mae pum aelod o'r Bwrdd ar y Pwyllgor Archwilio a dau aelod annibynnol allanol. Dyma'r aelodau ar hyn o bryd: Roy Evans (Cadeirydd ac Ymddiriedolwr); Colin R. John (Ymddiriedolwr a Thrysorydd); Tricia Carter (Ymddiriedolwr ac Is-lywydd); Phil Cooper (Ymddiriedolwr); Huw Williams (Ymddiriedolwr); Dyfrig Davies (Aelod Annibynnol); Kirsty Jenkins (Aelod Annibynnol). Mae archwilwyr mewnol y Llyfrgell, RSM, a chynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio hefyd. Mae is-adran nawdd y Llyfrgell, MALD, yn cadw'r hawl i gynrychiolydd fynd i un cyfarfod y flwyddyn.

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016. Cyflwynir cofnodion pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio i'r Bwrdd gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael copïau o'r holl adroddiadau archwilio mewnol i'w hystyried ac yn monitro pa mor ddigonol yw ymatebion y rheolwyr i'r argymhellion hynny sy'n mynd i'r afael ag unrhyw risgiau a gwendidau o ran rheolaeth fewnol. Cyflwynir cofnodion y Pwyllgor Archwilio gan ei Gadeirydd i Fwrdd y Llyfrgell i'w cymeradwyo.

Penderfynodd Bwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell sefydlu Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad ym mis Medi 2015, a mabwysiadodd yr Ymddiriedolwyr ei Gylch Gorchwyl yn eu cyfarfod yn Aberystwyth ym mis Tachwedd 2015. Nod y Pwyllgor yw adeiladu ar waith y Tasglu Llywodraethiant, a gyfarfu ym mis Gorffennaf a mis Awst 2015 yn sgil cyhoeddi adroddiad PwC a chefnogi'r Llyfrgell i gynnal safonau uchel o ran darparu gwasanaethau, drwy roi cymorth parhaus rheolaidd i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Yn benodol, bydd yn gwneud y canlynol: (1) monitro'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a pherfformiad; (2) adolygu polisïau ac arferion; a (3) hwyluso trafodaeth adeiladol rhwng yr Ymddiriedolwyr a'r Tîm Gweithredol a (4) rhoi adolygiadau gwrthrychol o berfformiad i'r Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad yn cynnwys Susan Davies (Cadeirydd), Hugh Thomas, Huw Williams, Elizabeth Siberry, Dyfrig Jones ac Iwan Davies - y mae pob un ohonynt yn Ymddiriedolwyr y Llyfrgell. Cyfarfu'r pwyllgor unwaith yn ystod y flwyddyn ym mis Chwefror 2016.

Mae SAC yn cynnal adolygiad o Lywodraethiant yn y Llyfrgell a bydd yn cyflwyno adroddiad yn 2016/17.

1.9 Archwilio mewnol

Cynhelir yr archwiliad mewnol ar gyfer y Llyfrgell gan RSM a fydd yn cydymffurfio â'r safonau a ddiffinnir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a bydd yn adrodd yn annibynnol i mi bob blwyddyn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Llyfrgell, ac yn cyflwyno argymhellion ar gyfer gwella. Mae Adroddiadau Cynnydd rheolaidd mewn perthynas ag Archwilio Mewnol yn cael eu llunio gan Archwilwyr Mewnol y Llyfrgell a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg i alluogi'r aelodau i adolygu a herio datganiadau sicrwydd a thystiolaeth arall a ddarperir gan reolwyr.

1.10 Cod Ymarfer Gorau ar Lywodraethiant Corfforaethol

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Llyfrgell yn ymwybodol ohoni, ac mae'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi'u cymryd i sicrhau eu bod yn gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y Llyfrgell yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Mae'r Llyfrgell wedi gweithredu'n unol â'r Cod Llywodraethiant Da: Cod ar gyfer y Trydydd Sector yng Nghymru a bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi sicrhau, unwaith eto yn unol â'r cod ymarfer penodol hwn, fod gan y Llyfrgell drefniadau llywodraethiant cadarn ar waith i hyrwyddo perfformiad uchel a diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra.

A hithau'n elusen gofrestredig, mae'r Llyfrgell nid yn unig wedi gweithredu'n unol â chodau ymarfer a chanllawiau'r Comisiwn Elusennau, sef Nodweddion Elusen Effeithiol, a'r Ymddiriedolwr Hanfodol, mae hefyd wedi sicrhau bod ein hymddiriedolwyr yn gwybod am y canllawiau pwysig hyn.

1.11 Rheoli Risg

Mae system rheolaeth fewnol y Llyfrgell fel y'i disgrifir yn ei 'Fframwaith Sicrwydd yng nghyswllt Rheoli Risg' yn seiliedig ar broses barhaus o nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni ei Chynllun Gweithredol blynyddol a'i Strategaeth, ac i werthuso'r tebygolrwydd o'r risgiau hynny'n digwydd a'r effaith pe baent yn digwydd; a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Mae'r gofrestr risgiau corfforaethol wedi nodi, cofnodi, asesu ac ystyried y risgiau strategol a gweithredol allweddol sy'n berthnasol i weithgareddau'r Llyfrgell. Ystyriwyd y rhain gan y Tîm Gweithredol hefyd a chymerwyd camau i'w rheoli'n briodol. Defnyddiodd y Llyfrgell y system Brîff Craidd (dull o roi negeseuon corfforaethol pwysig i staff) i hysbysu'r staff am eu dyletswyddau mewn perthynas â rheoli risg, a'u hannog i gyfrannu at y broses.

Caiff cofrestr risgiau corfforaethol y Llyfrgell ei hadolygu a'i diweddaru ddwywaith y flwyddyn. Caiff y risgiau a nodwyd eu cynnwys yn y gofrestr risgiau a'u hasesu o ran a ydynt yn peri risg strategol, gweithredol, ariannol neu risg o ran cydymffurfiaeth. Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli risgiau wedi'u cymeradwyo ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, yr archwilwyr mewnol, y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd a

Phenaethiaid y Cyfarwyddiaethau a'u staff. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiadau ysgrifenedig hefyd ddwywaith y flwyddyn ar y gofrestr risgiau wedi'i diweddaru.

Mae'r Llyfrgell yn rheoli risg mewn modd gofalus o hyd o ran ei chyfrifoldebau fel corff diwylliannol cenedlaethol. Y risg fwyaf sylweddol i'r Llyfrgell yn y dyfodol yw'r posibilrwydd o ostyngiadau pellach yn y Cymorth Grant oddi wrth Lywodraeth Cymru oherwydd pwysau yn y dyfodol ar wariant cyhoeddus y DU, i lefel lle na fydd y Llyfrgell yn gallu cyflawni ei hamcanion.

Mae'r Llyfrgell wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion Deddf Diogelu Data 1988. Ni chafwyd unrhyw enghreifftiau o fethu â chydymffurfio â gofynion y Ddeddf.

Linda Tomos
Prif Weithredwr, Llyfrgellydd a'r Swyddog Cyfrifyddu
22 Gorffennaf 2016

Llofnodwyd ar ran y Bwrdd gan:

Colin R John
Trysorydd
22 Gorffennaf 2016

2 AMCANION A GWEITHGAREDDAU

2.1 Prif amcanion

Prif amcan y Llyfrgell, fel y mynegwyd yn Siarter Atodol 2006, yw:

casglu, diogelu a rhoi mynediad i bob math a ffurf ar wybodaeth gofnodedig, yn enwedig mewn perthynas â Chymru, y Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymroi i ymchwil a dysg.

Y Llyfrgell Genedlaethol yw prif lyfrgell ac archifdy Cymru. Mae'n adnodd gwybodaeth ac yn drysordy ar bob pwnc, sydd ar gael am ddim i bawb, ac yn storfa fyw o ddiwylliannau cofnodedig Cymru. Mae iddi ddau ddimensiwn - adeilad ffisegol ysblennydd, yn Aberystwyth sy'n gartref i gasgliadau print, llawysgrifol, gweledol a sainweledol ac yn llyfrgell, archifdy ac oriel ar-lein sydd ar gael ar y rhyngrwyd.

2.2 Budd i'r Cyhoedd

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 2 o Ddeddf Elusennau 2011 i roi sylw dyladwy i'r canllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau ar y budd i'r cyhoedd. Er mai'r prif fuddiolwyr yw'r bobl sy'n byw yng Nghymru, mae gwaith y Llyfrgell yn rhoi budd byd-eang i ymwelwyr a defnyddwyr ar-lein.

2.3 Prif Weithgareddau

Dyma ein prif weithgareddau:-

2.2.1. *Casglu:*

Casglu deunyddiau drwy adneuon cyfreithiol, pryniannau, rhoddion, cymynroddion, cyfnewid, ac adneuo, yn unol â pholisïau datblygu casgliadau y cytunwyd arnynt.

Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- lunio casgliad mor gyflawn â phosib o ddeunydd cyhoeddedig yn ymwneud â Chymru (a gwledydd Celtaidd eraill i raddau llai helaeth), ym mhob cyfrwng, yn cynnwys cyhoeddiadau electronig ac wedi'u hargraffu a deunydd sain/delweddau symudol;
- cynnal a chadw (yn bennaf drwy adneuon cyfreithiol a phryniannau) y casgliad mwyaf cynhwysfawr yng Nghymru o ddeunyddiau wedi'u hargraffu a gyhoeddwyd yn y DU, ac Iwerddon, a deunydd ymchwil o wledydd eraill;
- datblygu casgliadau o ddeunyddiau heb eu cyhoeddi yn ymwneud â Chymru neu'n deillio o Gymru, yn cynnwys archifau a gwaith artistig;
- cael mynediad i ddeunydd a gaffaelwyd, ei brosesu, ei gatalogio a'i storio yn y ffordd fwyaf effeithlon.

2.2.2. Cadw a Diogelu:

Cadw a diogelu'r casgliadau. Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- sicrhau bod amodau o ran yr amgylchedd, storio a thrin a thrafod yn briodol ar gyfer diogelu'r casgliadau yn barhaus;
- ymyrryd er mwyn cadw'r deunyddiau i'w hatal rhag dirywio neu atgyweirio'r difrod;

- trosglwyddo gwybodaeth i fformatau cadw mwy addas.

2.2.3. Darparu mynediad a gwybodaeth:

Darparu mynediad cyhoeddus addas/effeithiol i adeilad, casgliadau a gwasanaethau'r Llyfrgell, a gwybodaeth amdanynt. Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- fonitro a dadansoddi anghenion y defnyddiwr;
- darparu mynediad i fannau, casgliadau a chyfleusterau cyhoeddus yn yr adeilad;
- trefnu mynediad i eitemau o gasgliadau a gwasanaethau gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr ar y safle neu drwy gyfathrebu ar-lein ar gyfer defnyddwyr o bell;
- darparu mynediad hawdd i gatalogau o gasgliadau ac adnoddau electronig y Llyfrgell ac i'w fersiynau digidol cyfatebol.

2.2.4 Rhoi cyhoeddusrwydd a dehongli:

Codi ymwybyddiaeth o waith a chasgliadau'r Llyfrgell a lledaenu gwybodaeth amdanynt. Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- ddeunyddiau ar wefan y Llyfrgell;
- canllawiau a deunydd cyhoeddusrwydd ar bapur ac ar-lein;
- arddangosfeydd a gweithgareddau cymunedol/addysgol sy'n deillio o'r casgliadau, yn y Llyfrgell ac mewn lleoliadau eraill ledled Cymru;
- digwyddiadau, darlithoedd a seminarau.

2.2.5 Cydweithio proffesiynol:

Cydweithio â grwpiau proffesiynol cysylltiedig, ac weithiau eu harwain, ledled Cymru a thu hwnt. Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- weithredu fel canolbwynt ar gyfer cyrff archifau a llyfrgelloedd yng Nghymru;
- gweithio gyda chyrff yng Nghymru a thu hwnt i gyflawni mentrau a phartneriaethau cydweithredol yn y sectorau gwybodaeth, diwylliant a threftadaeth eang, a datblygu ymarfer proffesiynol.

Swyddogaethau cefnogi:

Caiff y ***swyddogaethau craidd*** eu cefnogi gan swyddogaethau rheoli a busnes hanfodol, yn cynnwys: rheoli a datblygu staff; rheoli a bod yn atebol am adnoddau ariannol a chynhyrchu incwm; a chynnal a chadw a datblygu seilwaith TGCh ac adeilad a chyfleusterau'r Llyfrgell.

Dyma'r prif weithgareddau a gynhaliwyd i hyrwyddo dibenion yr elusen er budd y cyhoedd yng Nghymru.

Mae'r Llyfrgell yn cyflwyno Cynllun Gweithredol Blynyddol i Lywodraeth Cymru ar sut y caiff y gweithgareddau eu cynnal a'r targedau yn erbyn y gweithgareddau hyn. Mae rhagor o fanylion am sut cafodd y strategaeth hon ei llunio a'i chyflawni wedi'u cynnwys yn adran 7.

3. CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD

Mae'r Llyfrgell o'r farn ei bod wedi cyflawni'r prif nodau ar gyfer 2015-16 drwy ddarparu rhaglen ad-drefnu, cyd-leoli'r Comisiwn Brenhinol a chyflawni Dangosyddion Perfformiad Allweddol a gofynion Llywodraeth Cymru fel a ganlyn: -

3.1 Prif uchafbwyntiau yn 2015/16

3.1.1 Cyd-leoli Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Cyflawnwyd rhaglen gyfalaf sylweddol er mwyn croesawu casgliad a staff y Comisiwn Brenhinol i gael eu cyd-leoli yn y Llyfrgell ym mis Mai 2016. Ymhlith y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn mae sicrhau lle swyddfa addas, ystafelloedd darllen a storfeydd ar gyfer y sefydliad hwn.

3.1.2 Rhaglen Ad-drefnu Corfforaethol

O 1 Ebrill 2015, newidiodd y strwythur corfforaethol o 3 i 2 gyfarwyddiaeth. Derbyniodd 24 aelod o staff becyn diswyddo gwirfoddol gan adael yn ystod 2015-16 (yn ogystal â'r 9 aelod o staff yn 2014-15). Nid oes rhaglenni diswyddo gwirfoddol eraill ar y gweill, ond mae pob swydd wag yn cael ei hadolygu fesul achos. Mae'r Llyfrgell yn ddiolchgar i'r staff sydd wedi gadael am eu gwasanaeth yn ogystal ag i weddill y staff am ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i'r ad-drefnu.

3.1.3 **Digido ar gyfer Busnes** (a elwir yn DigiDo)

Llwyddodd y Llyfrgell i gyflawni prosiect 3 blynedd ym mis Mai 2015, gyda chyfanswm o £1.768m o grant yr UE yn cael ei roi i gefnogi busnesau yng Nghymru i ddefnyddio casgliadau'r Llyfrgell.

3.1.4 Cyfyngiadau Ariannol

Mae natur ariannol fregus y sefydliad wedi bod yn her fawr yn ystod y flwyddyn. Cymerwyd mesurau lleihau costau, er enghraifft, ni lenwyd nifer o swyddi wrth iddynt ddod yn wag ac roedd hyn yn cynnwys swyddi uwch reolwyr. At hyn, darparwyd hyfforddiant caffael i sicrhau bod gan staff y sgiliau i sicrhau gwerth gorau.

3.1.5 Cynefin

Prosiect tair blynedd yw Cynefin i ddigido mapiau degwm Cymru a'u gosod ar y We, ynghyd â rhestrau pennu'r degwm cysylltiedig, i greu map ar-lein a set ddata gysylltiedig y gellir chwilio drwyddi. Mae'r prosiect yn bartneriaeth dan arweiniad Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru (ARCW) ac mae'n cynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Casgliad y Werin Cymru, archifdai ledled Cymru ynghyd â chymunedau a gwirfoddolwyr unigol. Bydd mapiau'r degwm ar gael ar-lein gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chasgliad y Werin Cymru.

Mae cynnyrch y prosiect hefyd yn cynnwys chwe phrosiect cymunedol, sy'n defnyddio mapiau degwm fel man cychwyn ar gyfer ystyried themâu a phynciau sy'n bwysig

iddyn nhw ac y gall y gymuned gymryd perchnogaeth arnynt. Hefyd, mae gweithdai'n cael eu trefnu i hyrwyddo cysylltiad cymunedau ledled Cymru â'r prosiect hwn a'r defnydd o Fapiau Degwm.

Bydd prosiect Cynefin ar waith tan 30 Medi 2016 gyda chyfanswm cyllid o £573,909. Sicrhawyd cyllid allanol oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri, MALD a Chyngor Archifau a Chofnodion Cymru, a oedd yn cyfateb i 95% o gyfanswm y gwariant disgwyliedig.

3.1.6 Prosiect Darganfod BFI

Mae Cronfa Ddigido Datgloi Treftadaeth Ffilm y BFI yn gweithio i sicrhau y bydd ein treftadaeth ffilm ar gael i bawb yn y DU ei mwynhau drwy fuddsoddi mewn digido, diogelu, dehongli a mynediad gyda'r nod yn y pendraw o sicrhau bod holl dreftadaeth ffilm y DU ar y sgrin ar gael i'r cyhoedd yn ddigidol.

Drwy ddigido ein treftadaeth, byddwn yn sicrhau y bydd pobl y DU, cynhyrchwyr ffilmiau, addysgwyr, ymchwilwyr a defnyddwyr eraill yn gallu cael mynediad i'r ystod lawn o ffilmiau Prydeinig a'u mwynhau, ni waeth ymhle maent yn byw na lle mae'r dreftadaeth ffilm honno yn cael ei chadw. Bydd y mynediad digyffelyb hwn yn gweddnewid ein dealltwriaeth o siâp, hanes ac amrywiaeth ffilm a theledu ym Mhrydain.

3.1.7 Prosiect Addysg y Rhyfel Byd Cyntaf (y Rhyfel Mawr)

Mae Prosiect Addysg y Rhyfel Byd Cyntaf yn creu deunyddiau dysgu sy'n galluogi pobl ifanc yng Nghymru i ddeall sut y newidiodd Cymru a'r byd o ganlyniad i'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r cynadleddau heddwch. Nod y prosiect yw cyflwyno'r newidiadau hyn o safbwynt Cymru gan ddefnyddio ffynonellau o'r cyfnod a ffynonellau eilaidd sy'n dod yn bennaf o Gymru, ac wedi'u datblygu mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru.

Maent yn adnoddau trawsgwricwlaidd, ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, ac yn gwbl ddwyieithog. Y bwriad yw iddynt gefnogi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r cwricwlwm yng Nghymru, ac maent ar gael drwy Hwb, Gwefan Addysg y Llyfrgell Genedlaethol, a gwefan Casgliad y Werin Cymru. Mae'r fformatau'n cynnwys iBooks, taflenni gwaith PDF, cynlluniau gwersi, clipiau o ffilmiau, eitemau unigol gyda dehongliadau a gwersi NearPod rhyngweithiol. Rydym yn defnyddio eitemau gwreiddiol o'r cyfnod o gasgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru ar Archif ITV Cymru/Wales sy'n cynnwys ffilm a fideo, hanesion llafar, ffotograffau, papurau newydd, paentiadau, mapiau, llythyrau, telegramau, a deunyddiau wedi'u harchifo.

Ariennir y prosiect drwy Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru.

3.1.8 Cymru yn y Rhyfel: Addysg ac Estyn Allan o Gwmpas Cofgolofnau Rhyfel Cymru

Nod prosiect Cymru yn y Rhyfel yw datblygu ap ar gyfer dyfeisiau symudol/llechen yn dangos lleoliad cofgolofnau a beddi rhyfel. Hefyd, mae gwefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol wedi cael eu creu i gefnogi'r ap.

Mae Cymru yn y Rhyfel yn datblygu gweithgaredd cynhwysol i blant ysgol ledled Cymru a fydd yn eu galluogi i ddatblygu bywgraffiadau o'r enwau ar Gofgolofnau Rhyfel Cymru. Rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â chynrychiolwyr o'r lluoedd arfog, ac addysgwyr ac ysgolion yng Nghymru. Daw arian ar gyfer y prosiect gan Gronfa Gyfamod y Lluoedd Arfog, Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru.

3.1.9 System Rheoli'r Llyfrgell Newydd

Yn ystod 2015-16, ar y cyd â phartneriaid WHELF eraill, cyflwynwyd Catalog a System Rheoli'r Llyfrgell newydd, sy'n fwy datblygedig yn dechnolegol ac yn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr chwilio am eitemau.

3.2. Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Rydym yn ymrwymedig o hyd i fonitro a gwerthuso ein gwaith mewn ffyrdd meintiol ac ansoddol. Er bod ein dangosydd perfformiad meintiol yn rhoi cipolwg ar berfformiad, mae'r data ansoddol o astudiaethau achos ac adroddiadau naratif yn parhau i roi cipolwg manylach, a chyfle i fyfyrio ar ein gwaith a'i gyfoethogi,.

Dyma'r adroddiad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar berfformiad y Llyfrgell yn 2015/16 o'i gymharu â'i thargedau:

		Targed	Gwirioneddol
1	Nifer y defnyddwyr rhwydwaith o bell yn ystod y flwyddyn	900,000	1,260,376
2	Nifer yr ymwelwyr	87,000	86,406
3	Nifer y cyfranogwyr yng ngweithgareddau'r Llyfrgell	16,000	14,182
4	Boddhad ymwelwyr â'r awyrgylch cyffredinol	98%	96%
5	Y defnydd o'r ystafelloedd darllen	25,000	20,330

ADOLYGIAD ARIANNOL

4.1 Canlyniadau a Dyraniadau Arian

Paratoir y cyfrifon dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 ar ffurf a bennir gan weinidogion Llywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Roedd yr adnoddau net a dderbyniwyd gan y Llyfrgell am y flwyddyn ariannol yn £17k (2014/15: £2,764k). Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniodd y Llyfrgell oedd £13.451m (2014/15 £18.507m) a chyfanswm yr adnoddau a wariwyd oedd £13.434m (2014/15 £15.743m).

Cynyddodd y gronfa gyhoeddus anghyfyngedig o £20k o ddiffyg i £109k o warged, ond roedd hyn yn rhannol oherwydd y £270k o arian ychwanegol a dderbyniwyd ym mis Mawrth 2016, y mae £170k ohono yn ad-daladwy o'r Cymorth Grant yn 2016-17.

Heb gynnwys yr addasiadau pensiwn o dan FRS102, lleihaodd costau'r gyflogres £360k bob blwyddyn a chyfalafwyd llai o gyflogau. Mae cyflogau gros o £6,077k bellach 4% yn is na'r cyflogau gros ar gyfer 2005-6 heb addasu ar gyfer chwyddiant - felly mae'r Llyfrgell yn gweithio gyda sylfaen staff sy'n llai o lawer gyda 18% o staff yn llai na 10 mlynedd yn ôl.

Roedd balansau'r cronfeydd ar 31 Mawrth 2016 yn £91.039m (31 Mawrth 2015 £88.462m).

4.2 Codi Arian

Roedd y Llyfrgell yn ddiolchgar iawn am y £438,000 a dderbyniwyd yn sgil rhoddion ac etifeddiaeth ac am y £147,000 a dderbyniwyd ar ffurf asedau treftadaeth. Roedd hyn yn cynnwys dwy etifeddiaeth fawr - Ystad Geoff Powell (£184k) ac Ystad Lindsay Francis Richard Mobley (£180k).

4.3 Datganiad o'r Arferion a Argymhellir ar gyfer Elusennau

Cyhoeddodd y Comisiynwyr Elusennau Ddatganiad o'r Arferion a Argymhellir (SORP) ar gyfer elusennau ym mis Hydref 1995 a ddiweddarwyd gan SORP Elusennau 2005. Mae'r Llyfrgell wedi cydymffurfio â'r SORP ers cyfrifon 1996/97.

4.4 Prisio'r Asedau Sefydlog Diriaethol

Comisiynodd y Llyfrgell y Syrfewyr Siartredig, Cooke ac Arkwright, i gynnal ailbrisiad o adeiladau a thir rhydd-ddaliad y Llyfrgell fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2012 a diweddarwyd hwn mewn prisiad interim ar 31 Mawrth 2015. Ailbrisiwyd y cyfarpar fel yr oedd ar 31 Mawrth 2012 yn unol â rheoliadau'r Trysorlys a'i gyfarwyddiadau cyfredol i gyrff cyhoeddus ar gyfrifyddu ar sail costau. Dangosir tir ac asedau sefydlog diriaethol eraill naill ai yn ôl gwerth y defnydd presennol ohonynt neu gost eu newid wedi'i dibrisio. Addasir gwerthoedd yn flynyddol fel arfer drwy fynegeio rhwng pob prisiad ffurfiol sy'n digwydd bob pum mlynedd.

4.5 Polisi Talu Credydwyr

Mae gan y Llyfrgell drefn fonitro i fesur perfformiad y Llyfrgell yn seiliedig ar y "Cod Trefn Talu'n Well" a chymerir sampl o anfonebau sydd wedi'u talu i asesu perfformiad. Yn ystod 2015/16, talwyd 99.8% o'r anfonebau a dderbyniwyd cyn pen 30 diwrnod (2014/15 – 98.4%). Cafodd 72% o'r anfonebau eu talu o fewn 15 diwrnod i'w cael.

4.6 Polisi Cronfeydd Elusennau

Yn unol â SORP Elusennau 2005, rhaid i'r Llyfrgell ddatgelu ei pholisi ar Gronfeydd Elusennau.

4.6.1 Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd i gynnal y rhan fwyaf o'i gweithgareddau. Polisi cronfeydd y Llyfrgell gyda golwg ar ei Chronfeydd Cyhoeddus yw cydymffurfio â gofynion Dogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru sy'n nodi'r fframwaith ariannol y mae gofyn i'r Llyfrgell weithio iddi. Prif ofyniad y Ddogfen Fframwaith mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn yw mai dim ond 2% o'r Cymorth Grant gros y gellir ei gadw fel balansau arian parod. Mae'r gofyniad hwn yn arbennig o anodd yn yr oes o ansicrwydd ariannol sydd ohoni a byddai lliniaru'r risgiau yn cyfiawnhau cadw symiau uwch o gronfeydd wrth gefn o ystyried y rhagolwg ariannol. Felly mae'r Llyfrgell yn agored i lefel uchel o risg ariannol ac nid yw gofynion Llywodraeth Cymru yn helpu i hyrwyddo dulliau rheoli risg a rheoli ariannol da mewn perthynas â lefel y cronfeydd wrth gefn a gedwir.

4.6.2 Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig

Mae'r cronfeydd cyhoeddus cyfyngedig yn cynrychioli Grantiau Prynu a Chyfalaf a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw grantiau a dderbyniwyd gan gorff cyhoeddus at ddibenion penodol. Mae'r arian hwn yn gyfyngedig hefyd i 2% o Gymorth Grant gros yn cael ei gario drosodd mewn balansau arian parod.

4.6.3 Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig

Mae gan gronfeydd preifat anghyfyngedig y Llyfrgell dri phrif amcan:

- Cyfrannu at gostau refeniw rhedeg gwasanaethau'r Llyfrgell.
- Ategu Grant Prynu Casgliadau'r Llyfrgell i'w galluogi i gyflawni ei pholisi casgliadau.
- Cyllido'r buddsoddiad cyfalaf neu ddatblygiadau yn y dyfodol yn cynnwys cyfarpar, adeiladau a meddalwedd a chaledwedd gyfrifiadurol.

Ar 31 Mawrth 2016:

- Roedd £2m wedi'i glustnodi'n dybiannol ar gyfer darparu arian cyfatebol i brosiectau mawr ar ryw adeg yn y dyfodol.
- Roedd £300k y flwyddyn wedi'i glustnodi fel cyfraniad at gostau rhedeg y Llyfrgell, fel mesur byrdymor hyd nes bydd gwaith ad-drefnu pellach yn cael ei ystyried.
- Mae £69k y flwyddyn wedi'i ddarparu i gefnogi'r Grant Prynu (os bydd arian Llywodraeth Cymru yn parhau) neu £300k y flwyddyn os na fydd Llywodraeth Cymru yn darparu grant prynu eitemau mwyach.

Mae gwerth cronfeydd elusennol anghyfyngedig y Llyfrgell yn debygol o ostwng felly dros y cyfnod hyd at 2020.

Dylai'r Bwrdd adolygu a monitro lefel y cronfeydd wrth gefn drwy'r Is-bwyllgor Cyllid a sefydlwyd yn ddiweddar.

4.6.4 Cronfeydd Preifat Cyfyngedig

Dim ond yn unol â thelerau datganedig y cymynroddion penodol y ceir defnyddio cronfeydd cyfyngedig preifat y Llyfrgell. Dim ond at y dibenion a ddisgrifir ar gyfer pob cronfa y gellir eu defnyddio ac felly dim ond pan fydd eitem gwariant sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gronfa yn cael ei chymeradwyo gan y Bwrdd y cânt eu defnyddio.

4.7 Polisi Buddsoddi

Yn 2015/16, polisi buddsoddi'r Llyfrgell fu cynnal portffolio a fuddsoddir mewn ecwitïau a bondiau. Mae'r swm y gellir ei fuddsoddi mewn categorïau asedau gwahanol wedi'i bennu yn unol ag asesiad risg. Ystyrir bod agwedd y Llyfrgell at risg yn un "canolig", gan dderbyn y bydd risg yn deillio o fuddsoddi mewn bondiau ac ecwitïau er mwyn cael mwy o enillion na thrwy roi arian mewn cyfrif cadw.

Mae'r Bwrdd yn adolygu'r Polisi a Strategaeth Buddsoddi bob blwyddyn, sy'n cynnwys ystyried buddsoddiadau cymdeithasol, amgylcheddol neu foesegol.

Mae'r Llyfrgell wedi penodi rheolwyr buddsoddi, Investec Wealth & Investment, sy'n gyfrifol am fuddsoddi'r portffolio cronfeydd preifat. Mae meincnod wedi'i osod i'r rheolwyr ar gyfer perfformiad y portffolio buddsoddi, ac yn 2015/16, sicrhawyd enillion o -3.02% yn erbyn meincnod o -3.49% (2014/15: 8.57% yn erbyn meincnod o 10.22%).

Rheolwyd y buddsoddiadau ar sail ddewisol yn unol â gofynion Deddf Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr 1961 ac yn fwy diweddar, Deddf Ymddiriedolwyr 2000. Caiff perfformiad y portffolios ei fonitro a'i gyflwyno ar ffurf adroddiad yn rheolaidd i Fwrdd y Llyfrgell. Ar 31 Mawrth 2016, gwerth yr arian parod a'r buddsoddiadau yn y farchnad oedd £8.67m (£8.361m ar 31 Mawrth 2015).

4.8 Prif risgiau ac ansicrwydd

4.8.1 Ansicrwydd ariannol

Mae'r Bwrdd a'r rheolwyr yn poeni am y gostyngiad sylweddol yn y grant a gaiff y Llyfrgell gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Llyfrgell wedi mynd ati i ddiswyddo pobl yn wirfoddol am gyfanswm cost o £1.431m i ddelio â thoriadau hanesyddol yn y gyllideb.

O ganlyniad i doriad arall mewn arian gwerth 4.7% o'r Cymorth Grant yn 2016-17, mae angen i'r Llyfrgell nodi a sicrhau arbedion pellach gwerth £0.3m yn ei chyllideb sylfaenol er mwyn iddi fantoli ei chyllideb. Er bod modd ariannu'r diffyg o'r gronfa breifat anghyfyngedig yn y byrdymor, mae angen ad-drefnu pellach i greu arbedion yn yr hirdymor, ac mae'r Bwrdd yn poeni na fydd y Llyfrgell yn gallu cyflawni ei hamcanion yn y dyfodol os bydd toriadau'n parhau mewn cyllid.

4.8.2 Cynllun Pensiwn

Mae canllawiau'r Trysorlys wedi argymell y dylid gwneud newidiadau i'r holl gynlluniau buddion diffiniedig sy'n effeithio ar adrannau'r llywodraeth. Mae'r Llyfrgell yn ceisio cael ei heithrio rhag gorfod gwneud y newidiadau hyn, ac mae cais wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r Trysorlys. Caiff gwerthusiad actiwaraidd o'r cynllun ei gynnal fel ar 31 Mawrth 2016 a allai effeithio ar benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch hyfywedd y cynllun.

5 ADRODDIAD CYNALIADWYEDD

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â'r canllawiau a gyflwynwyd gan Drysorlys EM yn *Public Sector Annual Reports: Sustainability Reporting Guidance*. Yn ystod 2015-16, cyflawnwyd y canlynol: -

	2015-16	2014-15	2013-14
Y defnydd o ddŵr			
Y defnydd o ddŵr m^3	9,842	7,698	6,539
Y defnydd o ddŵr m^3 fesul WTE*	41.52	27.69	23.44
Costau cyflenwad dŵr £	£35,483	£25,718	£21,909
Y defnydd o bapur			
Y defnydd o bapur mewn rimiau	757	1,453	2,554
Y defnydd o bapur mewn rimiau (defnydd mewnol)	590	1,064	2,137
Gwastraff			
Cyfanswm gwastraff (tunnell)	31.02	34.8	37.7
Wedi'i ailddefnyddio, ei ailgylchu, ei gompostio	12.5	21.1	10
Tirlenwi	18.52	13.73	12.6
Peryglus	0.4	15.1 (difrod tân)	-
Wedi'i ailddefnyddio, ei ailgylchu, ei gompostio fel % o'r holl wastraff	40%	60.6%	26.5%
Cyfanswm cost gwaredu £ (heb gynnwys Gwastraff o'r Tân)	4,052	2,858	1,933
Allyriadau nwyon tŷ gwydr			
Cyfanswm y tunelli o allyriadau CO2 cyfatebol			
Oherwydd teithio busnes			
Mewn car	70	66.6	85.1
Ar y trên neu awyren			
Oherwydd y defnydd o ynni (1,000 tCO2e)			
Trydan a Nwy	1,773	1,720	1,718
Oherwydd y defnydd o ynni			
Trydan	2,446,648	2,358,799	2,364,472
Nwy	2,976,625	3,148,131	3,124,612
Gwariant ar deithio busnes £(Car, Trên, Bws ac Awyren)	£53,828	£66,113	£83,794
Gwariant ar Fan y Llyfrgell	£8,967	£5,320	£4,010
Cyfanswm gwariant ar ynni £	£343,116	£341,960	£347,009

*WTE = cyfwerth ag amser cyflawn

Nodyn ar Ynni:
Mae'r costau yn rhoi'r cyfanswm ar gyfer y safle gan gynnwys ynni a ddarparwyd i adeilad cyfagos. Ond mae'r defnydd ar gyfer adeiladau'r Llyfrgell Genedlaethol yn unig. Mae'r Llyfrgell wedi bod yn casglu data o'r AMR (system Darllen Mesuryddion Awtomatig) ers 30 mis a byddwn yn dadansoddi'r data er mwyn pennu'r meysydd lle defnyddir ynni er mwyn gallu'u targedu i wneud gostyngiadau. Mae Cynllun Lleihau Carbon wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Carbon. Er mwyn cyflawni unrhyw arbedion sylweddol, mae'r Cynllun wedi nodi y bydd angen buddsoddi'n sylweddol ac, felly, bydd yn rhaid cael rhagor o arian gan Lywodraeth Cymru i'w weithredu. Mae nifer o gynlluniau wedi cael eu pennu ynghyd â rhagamcan o'r costau a chyfnodau ad-dalu; bydd y rhain yn cael eu hystyried a'u datblygu dros y blynyddoedd nesaf yn dibynnu ar yr arian a fydd ar gael.

Mae gwastraff garddwriaethol a gynhyrchir ar y safle yn cael ei gompostio ar y safle. Nid yw maint y gwastraff hwn yn cael ei fesur.

6 POLISÏAU YN YMWNEUD Â STAFFIO

6.1 Cyflog Byw

Mae'r Llyfrgell wedi talu'r cyflog byw fel y nodwyd gan y Sefydliad Cyflog Byw ers mis Ebrill 2014.

6.2 Recriwtio a Chadw Staff

Dim ond drwy ymrwymiad ei staff y gall y Llyfrgell gyflawni ei nodau, felly mae'r Llyfrgell yn canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant i sicrhau bod yr holl aelodau o staff yn cyflawni eu potensial.

6.3 Cyflogi Pobl Anabl

Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru drefn recriwtio nad yw'n gwahaniaethu ac mae bob amser yn fodlon ystyried ceisiadau gan bobl anabl, a'u penodi. Hefyd, mae'r Llyfrgell yn ymdrechu'n galed i sicrhau bod gweithwyr anabl yn cael y cyfleusterau sydd eu hangen arnynt i gyflawni'u gwaith yn effeithiol.

6.4 Ymgynghori â Gweithwyr

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn rhoi gwybodaeth i staff mewn sawl ffordd gan gynnwys cyfarfodydd staff, sesiynau briffio tîm, memoranda agored, memoranda i Benaethiaid Adrannau, ac ymgynghori a negodi gyda'r Cyngor Partneriaeth a'r Undebau Llafur.

6.5 Adroddiad Taliadau

Mae'r Llyfrgell yn talu ei holl staff o dan system talu a graddio y cytunwyd arni. Cymeradwywyd y system bresennol gan Dîm Gweithredol y Llyfrgell a chytunodd yr undebau staff iddi drwy'r trefniadau cydfargeinio. Mae proses apelio annibynnol ar waith i ystyried materion yn ymwneud â graddio.

Bob blwyddyn, mewn ymgynghoriad ag undebau'r staff, mae'r Llyfrgell yn ystyried pecyn taliadau'r Llyfrgell yn erbyn cymaryddion allanol, symudiadau yn yr economi ac unrhyw annhegwch mewnol a all fod wedi datblygu. O hyn, cynhyrchir cylch cyflog neu gynnig, a chyflwynir hwn i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo, ac yna fe'i negodir yn ffurfiol â'r undebau. Mae hyn yn arwain at becyn tâl ac amodau newydd ar gyfer holl staff y Llyfrgell sy'n gyfrwymol tan y rownd negodi nesaf. Mae codiadau cynyddrannol dan y cylch cyflog yn dibynnu ar system y Llyfrgell o arfarniadau blynyddol. Mae elfennau chwyddiant sydd wedi'u cynnwys yn y cylch cyflog y cytunwyd arno yn cael eu dyfarnu'n awtomatig i bob aelod staff.

Mae cyflog y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd yn cynnwys cyflog sylfaenol ynghyd â bonws blynyddol heb ei gyfuno. Pennir ei thâl gan Swyddogion y Llyfrgell (y Llywydd, yr Is-lywydd a'r Trysorydd), yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r tâl uchaf ar gyfer Prif Weithredwyr. O 2015/16, bydd cyflog y Prif Weithredwyr wedi'i gynnwys yn y cylch gwaith cyflogau cyffredinol a bydd yn codi yn unol â'r dyfarniad cyflog chwyddiannol y cytunir arno ar gyfer yr holl staff. Cyfunir canran o'r dyfarniad i mewn i'w chyflog blynyddol, a thelir gweddill y dyfarniad, hyd at uchafswm o 10%, fel taliad blynyddol heb ei gyfuno. Mae gan y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd presennol gontract cyflogaeth dros dro ac mae'n aelod cyffredin o gynllun pensiwn y Llyfrgell.

Mae uwch aelodau staff eraill yn derbyn cyflog gros, y penderfynir arno fel rhan o'r broses o negodi'r cylch cyflog ar gyfer holl aelodau staff eraill y Llyfrgell. Cymeradwyir y cylch cyflog gan Lywodraeth Cymru. Mae gan yr uwch staff gontractau cyflogaeth parhaol ac maent yn aelodau cyffredin o gynllun pensiwn y Llyfrgell. Dangosir aelodau'r Tîm Gweithredol ar dudalen 2 a cheir rhagor o fanylion am y tâl a'r buddion pensiwn yn Nodyn 8 (c) y cyfrifon. Y cyfnod rhybudd ar gyfer aelodau'r Tîm Gweithredol yw 3 mis. Mae darpariaeth ar gyfer digolledu am derfynu'n gynnar i'w chael yn nhrefniant dileu swyddi safonol y Llyfrgell.

7 CYNLLUNIAU AR GYFER CYFNODAU YN Y DYFODOL

Mae'r Cynllun Strategol ar gyfer 2014-17 yn nodi nifer o amcanion allweddol, sef:

- Arwain trafodaeth genedlaethol am y potensial i sefydlu Archif Genedlaethol Cymru
- Mynd ati i ddatblygu cyfleoedd masnachol ac ymchwilio i ffrydiau incwm newydd
- Datblygu Rhaglen Partneriaeth Gymunedol gydag eraill yn y sector cyhoeddus a chyfrannu at ymchwil ryngwladol
- Datblygu'r Gwasanaeth Gwarchod a Chadwraeth Ddigidol ar gyfer Prosiect Treftadaeth Ddogfennol Cymru

Mae'r Llyfrgell wedi cael ei Llythyr Cylch Gwaith gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi paratoi ei Chynllun Gweithredol ar gyfer 2016-17 yn unol â hynny. Mae'r egwyddorion a nodwyd yn y llythyr cylch gwaith fel a ganlyn: -

1. Cyfranogiad Gweithredol
2. Trechu Tlodi
3. Cynaliadwyedd a sicrhau'r elw mwyaf posib ar fuddsoddiad
4. Gweithio mewn partneriaeth o fewn y sector treftadaeth
5. Cefnogi Brand Cymru a thwristiaeth ddiwylliannol

Mae'r Llyfrgell yn wynebu cyfnod o newid digyffelyb a rhaid sylweddoli pa mor heriol fydd arwain sefydliad drwy'r cyfnod hwn.
Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau eraill i gefnogi'r agenda gynyddol o symud i reoli a chadw llawer o wybodaeth yn electronig. Yn ystod 2016-2017, ein nod fydd:

- Cynnal ein gwasanaethau craidd presennol a'r gwaith o'u darparu fel llyfrgell adneuon cyfreithiol genedlaethol er gwaethaf gostyngiad o 4.7% yn ein grant gan Lywodraeth Cymru.
- Cynyddu ein hincwm masnachol 10%.
- Cynyddu ein defnydd digidol i 1.5m o ymweliadau.
- Cynyddu ein gwaith ar gyfer y Rhaglen Cyfuno 10%.
- Rhoi Strategaeth Cadwraeth Ddigidol ar waith mewn rôl arwain i Gymru.
- Cynyddu nifer yr eitemau a roddir ar fenthyg i sefydliadau eraill 5%.
- Rhoi strategaethau newydd ar waith ar gyfer Marchnata, Cyfathrebu, Cynhyrchu Incwm ac Allgymorth ac Ymgysylltu erbyn mis Medi 2016.
- Cwblhau'r Rhaglen Ad-drefnu Sefydliadol erbyn mis Gorffennaf 2016 a datblygu Strategaeth newydd ar gyfer Datblygu'r Gweithlu erbyn mis Rhagfyr 2016.
- Datblygu perthynas strategol gyda BBC Cymru Wales, S4C ac ITV Wales i gadw deunyddiau darlledu a sicrhau mynediad iddynt.
- Parhau i gyfrannu adnoddau addysgol digidol ar gyfer Yr Hwb a chefnogi'r gwaith o ddarparu Rhaglen Goffáu Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918.
- Datblygu Cynllun Rheoli Asedau newydd erbyn mis Rhagfyr 2016
- Datblygu strategaeth gychwynnol i fodloni gofynion statudol Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol erbyn mis Medi 2016.

Bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi gwneud y canlynol erbyn mis Mawrth 2017: -

- cynyddu'r defnydd o'i chasgliadau, ei gwasanaethau a'i gweithgareddau ac ymwybyddiaeth pobl ohonynt;
- parhau i gyflawni ei dyletswyddau statudol fel Llyfrgell Adneuon Cyfreithiol o dan ei Siarter ac wedi cyflawni ei blaenoriaethau strategol o dan Lythyr Cylch Gwaith y Gweinidog;
- rhoi trefniadau llywodraethiant newydd a strategaethau cynllunio ariannol newydd ar waith sy'n ei galluogi i wynebu cyd-destun ariannol ansicr ar gyfer cyrff sector cyhoeddus mewn modd mwy cadarn;
- staff yn gweithio mewn strwythur sefydliadol newydd sy'n hyrwyddo cydweithredu a gweithio hyblyg;
- atgyfnerthu ei phartneriaethau strategol yn y sector diwylliant a threftadaeth yng Nghymru a thu hwnt. Fel hyn, bydd yn ymestyn ei chyrhaeddiad yn ddigidol ac yn ffisegol, gan ddarparu gwasanaethau, lle y bo'n bosib, lle y gall pobl gael gafael arnynt hawsaf;
- cyfrannu'n llwyr at y rhaglen Blwyddyn Antur ac at gynllunio ar gyfer blynyddoedd â thema yn y dyfodol yn ogystal â rhaglenni darparu strategol eraill;
- ymestyn ei harweinyddiaeth dros ddigido torfol, cadwraeth ddigidol a darganfod adnoddau yng Nghymru, gan ddarparu ei harbenigedd i sefydliadau eraill lle bo digon o adnoddau i wneud hynny;
- parhau i fod yn sefydliad cenedlaethol dwyieithog unigryw a gaiff ei werthfawrogi, gan ddiwallu anghenion pobl Cymru.

Mae'r Llyfrgell yn cydnabod pwysigrwydd cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, yn arbennig y rhai mewn ardaloedd difreintiedig o Gymru ac mae'r Cynllun yn dangos ymrwymiad cadarn i gefnogi'r Rhaglen Cyfuno i ddefnyddio diwylliant fel modd i ddarparu cyfleoedd bywyd a chyfleoedd newydd. Bydd Strategaeth Allgymorth ac Ymgysylltu newydd yn canolbwyntio gweithgareddau ar ddarparu ledled Cymru yn ogystal ag yn Aberystwyth, gan weithio gydag awdurdodau lleol a'r trydydd sector.

Byddwn yn ceisio cynyddu 'effaith' y Llyfrgell ar fywydau unigolion a chymunedau. Ein nod yw sicrhau y bydd y Llyfrgell Genedlaethol, fel sefydliad cenedlaethol, yn parhau i wneud gwahaniaeth sylweddol i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru gyfan. Byddwn yn ymateb i'n defnyddwyr, yn awr ac yn y dyfodol. Byddwn yn ysbrydoli ein dysgwyr, o bob oed, yn cefnogi ein sector busnes ac yn hyrwyddo delwedd Cymru dramor. Gwnawn ein gorau glas i sicrhau bod casgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn fwyfwy hygyrch ym mhob cartref yng Nghymru, waeth pa heriau anodd a wynebwn.

Ymddiriedolwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cydymffurfio â'u dyletswydd yn Adran 11 o Ddeddf Elusennau 2011 i roi sylw dyladwy i'r canllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau.

Archwilydd

Mae'r Cyfrifon yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol ag Adran 9(8) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 ar gyfer Cymru.

Linda Tomos
PRIF WEITHREDWR A LLYFRGELLYDD
22 Gorffennaf 2016

Colin R John
TRYSORYDD
22 Gorffennaf 2016

DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU'R BWRDD A'R LLYFRGELLYDD

O dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992, mae'n ofynnol bod Bwrdd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn paratoi datganiad cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a bennir gan Weinidogion Llywodraeth Cymru gyda chydsyniad y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon i roi darlun cywir a theg o weithgareddau ariannol y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn ac am ei sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.

Wrth baratoi cyfrifon y Llyfrgell, mae'n ofynnol bod y Bwrdd yn:-

- Glynu wrth y cyfarwyddyd cyfrifyddu a gyhoeddir gan weinidogion Llywodraeth Cymru gan gynnwys y gofynion datgelu a chyfrifyddu perthnasol, a'u defnyddio'n gyson.
- Gwneud penderfyniadau a rhagamcanion sy'n rhesymol a darbodus.
- Dweud a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol a'r datganiadau o'r arferion a argymhellir wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol.
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw, oni bai nad yw'n briodol tybio y bydd y Llyfrgell yn parhau i weithredu.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar ran Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Llyfrgellydd yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Llyfrgell. Mae ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae hi'n atebol amdano a thros gadw cofnodion priodol, yn cael eu disgrifio ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru.

Datganiad Datgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, ac mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd yr holl gamau y dylai eu cymryd i sicrhau ei bod yn gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Linda Tomos
PRIF WEITHREDWR A LLYFRGELLYDD
22 Gorffennaf 2016

Llofnodwyd ar ran y Bwrdd gan:

Colin R John
TRYSORYDD
22 Gorffennaf 2016

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Llyfrgell Genedlaethol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 o dan adran 9 o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Gweithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

Priod gyfrifoldebau'r Llyfrgellydd a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn fwy cyflawn yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Llyfrgellydd, mae'r Llyfrgellydd yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed oddi tani i sicrhau cysondeb trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). O dan y safonau hyn, mae'n rhaid imi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, boed hynny trwy gamgymeriad neu dwyll. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac wedi'u gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Hefyd, rydw i'n cael tystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Yn ogystal, byddaf yn darllen y wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i ganfod anghysondebau o bwys â'r datganiadau ariannol archwiliedig a chanfod unrhyw wybodaeth sydd i bob golwg yn sylweddol anghywir yn seiliedig ar y wybodaeth a gawsom wrth gyflawni'r archwiliad neu'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau amlwg o bwys, rwy'n ystyried y goblygiadau i'm tystysgrif a'm hadroddiad.

Barn ar y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 31 Mawrth 2016 ac o'i hincwm net, ei henillion a'i cholledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi yn briodol yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan adran 9 o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992.

Barn ar Reoleidd-dra
Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Barn ar faterion eraill
Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a wnaed o dan adran 9 o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad
Nid oes gennyf ddim i'w nodi yng nghyswllt y materion canlynol y byddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt i chi os, yn fy marn i:

- nad yw'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM;
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol yn ein barn ni;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio yn gyson â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu;
- na ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru o ran taliadau a thrafodion eraill; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad
Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

28 Gorffennaf 2016

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Llyfrgell Genedlaethol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

DATGANIAD GWEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2016

	Nodiadau	CRONFEYDD Anghyfyngedig £'000	CYHOEDDUS Cyfyngedig £'000	CRONFEYDD Anghyfyngedig £'000	PREIFAT Cyfyngedig £'000	2015/16 Cyfanswm **£'000**	2014/15 Cyfanswm wedi'i ailddatgan **£'000**
Incwm:							
Rhoddion ac etifeddiaeth	15b	-	-	384	201	**585**	1,434
Gweithgareddau elusennol							
Grantiau'r Llywodraeth	2	9,705	1,913	-	-	**11,618**	15,547
Grantiau Eraill	3	-	441	-	21	**462**	766
Gweithgareddau masnachu eraill	4	569	-	-	-	**569**	572
Incwm Buddsoddi	15b	-	-	195	22	**217**	188
Cyfanswm incwm		10,274	2,354	579	244	**13,451**	18,507
Gwariant:							
Costau codi arian	5	721	68	31	4	**824**	797
Gweithgareddau elusennol:							
Casglu	5	2,013	480	-	-	**2,493**	2,395
Darparu Mynediad a Gwybodaeth	5	2,702	310	9	-	**3,021**	3,396
Rhoi Cyhoeddusrwydd a Dehongli	5	1,476	638	-	53	**2,167**	2,332
Cadwraeth a Diogelu	5	2,735	564	-	-	**3,299**	3,111
Llywodraethiant	5	941	92	-	-	**1,033**	1,440
Eitem eithriadol							
Ffioedd yn gysylltiedig â thân yn y to	23a	19	-	-	-	**19**	39
Setliad / taliad Tribiwnlys	23b	45	-	-	-	**45**	88
Taliadau diswyddo	23c	48	30	-	-	**78**	1,353
Trydydd Adeilad y Llyfrgell - Cam 3	23d	-	440	-	-	**440**	652
Cyfanswm gwariant		10,700	2,622	40	57	**13,419**	15,603
(Enillion)/Colled ar waredu asedau y'u bwriadwyd ar gyfer buddsoddi	16	-	-	(139)	(16)	**(155)**	(180)
Costau Cyllid Pensiwn	22d	170	-	-	-	**170**	320
Cyfanswm gwariant		**10,870**	**2,622**	**(99)**	**41**	**13,434**	**15,743**
(Gwariant)/incwm net		(596)	(268)	678	203	17	2,764
Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd	15	35	1	27	(63)	-	-
		(561)	**(267)**	**705**	**140**	**17**	**2,764**
(Colledion)/Enillion cydnabyddedig eraill:							
Enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau		-	-	(334)	(47)	**(381)**	248
Ailbrisio Asedau Sefydlog Diriaethol	10	-	4,011	-	-	**4,011**	(2,808)
Enillion (colledion) actiwaraidd ar y cynllun pensiwn buddion diffiniedig	22e	(1,070)	-	-	-	**(1,070)**	3,330
Cyfanswm enillion/(colledion)	16	(1,070)	4,011	(334)	(47)	**2,560**	770
SYMUDIAD NET YN Y CRONFEYDD AM Y FLWYDDYN ARIANNOL		(1,631)	3,744	371	93	**2,577**	**3,534**
BALANSAU'R CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN AR 1 EBRILL	15	**(5,670)**	**78,948**	**7,509**	**7,675**	**88,462**	**84,928**
BALANSAU'R CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN AR 31 MAWRTH	15	**(7,301)**	**82,692**	**7,880**	**7,768**	**91,039**	**88,462**

Mae pob gweithgarwch yn parhau. Caiff yr holl enillion a cholledion cydnabyddedig eu cofnodi yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol. Mae'r nodiadau ar dudalennau 27 i 49 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2016

					Ailddatgan
		31 Mawrth 2016			31 Mawrth 2015
	Nodiadau	£000			£000
ASEDAU SEFYDLOG					
Asedau Diriaethol	10	**68,009**		61,571	
Asedau Treftadaeth	12	**19,885**		19,435	
Buddsoddiadau	11	**8,678**		8,361	
			96,572		89,367
ASEDAU CYFREDOL					
Stociau		**52**		55	
Dyledwyr	13	**1,388**		1,844	
Banc		**1,207**		5,124	
		2,647		7,023	
CREDYDWYR					
Banc		**(1)**		(404)	
Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn	14	**(719)**		(1,874)	
		(720)		(2,278)	
ASEDAU CYFREDOL NET			**1,927**		4,745
Symiau a ddaw'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	14		**(50)**		-
Asedau net heb gynnwys rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn			**98,449**		94,112
Ased pensiwn buddion diffiniedig (rhwymedigaeth)	22		**(7,410)**		(5,650)
ASEDAU NET GAN GYNNWYS RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN			**91,039**		88,462
CRONFEYDD	15				
Cyhoeddus Anghyfyngedig		**109**		(20)	
Pensiwn wrth gefn		**(7,410)**		(5,650)	
Cyfanswm y Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig		**(7,301)**		(5,670)	
Cyhoeddus Cyfyngedig (heb gynnwys y Gronfa Ailbrisio)		**55,829**		78,948	
Cronfa Ailbrisio		**26,863**		-	
Preifat Anghyfyngedig		**7,880**		7,509	
Preifat Cyfyngedig		**800**		854	
Casgliadau Cyfyngedig Preifat		**6,968**		6,821	
			91,039		88,462

Mae'r ymddiriedolwyr wedi paratoi'r cyfrifon yn unol ag adran 138 o Ddeddf Elusennau 2011.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 27 i 49 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Llyfrgell Genedlaethol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Linda Tomos
PRIF WEITHREDWR A LLYFRGELLYDD
22 Gorffennaf 2016

Colin R John
TRYSORYDD

22 Gorffennaf 2016

DATGANIAD LLIF ARIAN AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2016

		2015/16		2014/15	
		£000	**£000**	£000	£000
Arian parod a gynhyrchwyd drwy weithgareddau gweithredol	17		752		5,140
Arian parod o weithgareddau buddsoddi: -					
Prynu asedau sefydlog diriaethol	10	(3,421)		(1,793)	
Prynu asedau treftadaeth	12	(303)		(481)	
Enillion wrth werthu buddsoddiadau	11	1,203		1,214	
Prynu Buddsoddiadau	11	(1,527)		(2,495)	
Arian parod net a ddarparwyd gan (a ddefnyddiwyd mewn) (g)weithgareddau buddsoddi			(4,048)		(3,555)
(Lleihad)/ Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod			(3,296)		1,585
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod			5,492		3,907
Cyfanswm yr arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	18		2,196		5,492

Mae'r nodiadau ar dudalennau 27 i 49 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Nid oes incwm na gwariant gwaddol i adrodd arnynt.

NODIADAU I'R CYFRIFON AR 31 MAWRTH 2016

1 POLISÏAU CYFRIFYDDU

Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd, y penderfyniadau a'r prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif wrth baratoi'r datganiadau ariannol fel a ganlyn:

(a) Sail paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon (FRS102) (a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2015) (SORP Elusennau (FRS102), Deddf Cwmnïau 2006 a Chyfarwyddyd Cyfrifon 2000 a roddwyd i'r Llyfrgell gan y Cynulliad Cenedlaethol ar ran Llywodraeth Cymru. Paratoir y cyfrifon ar sail busnes byw.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cyd-fynd â'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS102. Caiff asedau a rhwymedigaethau eu cydnabod i gychwyn ar werth trafodion neu gostau hanesyddol oni nodir yn wahanol yn y nodyn/nodiadau polisi cyfrifyddu perthnasol.

Mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion y Safonau Cyfrifyddu a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu i'r graddau y bo'r gofynion hynny'n briodol. Nid yw'r Cyfarwyddyd Cyfrifyddu yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llyfrgell lunio cyfrif incwm a gwariant cryno na nodyn cost hanesyddol ar wargedau neu ddiffygion.

(b) Adnoddau a Dderbyniwyd

Caiff yr holl incwm ei gydnabod pan fydd gan yr elusen hawl i'r cronfeydd, pan fydd unrhyw amodau perfformiad sy'n gysylltiedig â'r eitem wedi'u bodloni, pan fo'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn a gellir mesur y swm yn ddibynadwy. Caiff pob Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru ei gydnabod yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol yn y flwyddyn y caiff ei dderbyn, oni bai ei fod yn ymwneud ag arian Buddsoddi i Arbed lle caiff ei drin fel credydwr. Ni chaiff Cymorth Grant Cyfalaf ei ohirio dros oes yr ased. Caiff grantiau eraill a dderbyniwyd eu cydnabod ar sail derbyniadau pan mae amodau'r grantiau wedi'u bodloni.

Ar gyfer etifeddiaeth, tybir bod hawl yn golygu'r cynharaf o'r canlynol: y dyddiad y daw'r elusen yn ymwybodol bod profiant wedi'i roi, y dyddiad y bydd yr ystad wedi'i therfynu a bydd yr ysgutor(ion) wedi hysbysu'r Ymddiriedolaeth y bydd dosbarthiad yn cael ei wneud, neu'r dyddiad y derbynnir dosbarthiad gan yr ystad. Lle bo'r elusen wedi'i hysbysu o etifeddiaeth, neu lle bo'r elusen yn ymwybodol bod profiant wedi'i roi, ac nad yw'r meini prawf ar gyfer cydnabod incwm wedi'u bodloni, yna caiff yr etifeddiaeth ei thrin fel ased wrth gefn a'i datgelu os yw o bwys. Rhoddir cyfrif am drosglwyddiadau o gronfeydd preifat ar ôl ystyried y symudiadau yn y cyfalaf gweithio. Bydd incwm a dderbyniwyd yng nghyswllt cyfnodau cyfrifyddu dilynol yn cael ei drin fel incwm gohiriedig.

Cyfrifyddu Arian

Mae cronfeydd anghyfyngedig (cyhoeddus a phreifat) ar gael i'w gwario ar weithgareddau sy'n datblygu unrhyw un o amcanion cyffredinol y Llyfrgell.

Mae'r cronfeydd cyhoeddus cyfyngedig yn cynrychioli Grantiau Prynu a Chyfalaf a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru at ddibenion penodol.

Mae'r cronfeydd cyfyngedig preifat yn gronfeydd sy'n rhwym wrth gyfyngiadau penodol a osodir gan roddwyr neu gan ddiben yr apêl. Cronfeydd anghyfyngedig yr

elusen yw'r cronfeydd dynodedig y mae'r ymddiriedolwyr wedi penderfynu yn ôl eu disgresiwn eu bod am eu rhoi o'r neilltu at ddiben penodol. Mae'r cronfeydd cyfyngedig preifat yn rhoddion y mae'r rhoddwyr wedi nodi eu bod am iddynt gael eu defnyddio ar gyfer maes penodol o waith yr Ymddiriedolaeth neu ar gyfer prosiect penodol a gaiff ei gyflawni gan y Llyfrgell.

(c) Gwariant

Caiff gwariant ei gydnabod pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i dalu trydydd parti, pan fo'n debygol y byd setliad yn ofynnol a gellir mesur swm y rhwymedigaethau'n ddibynadwy. Lle yr aed i wariant ymlaen llaw a lle bo'n ymwneud â chyfnod diweddarach, dim ond os bydd rhagdaliad yn werth mwy na £5,000 y caiff ei ystyried. Caiff gwariant ei ddosbarthu o dan y penawdau gweithgarwch canlynol:

- Mae cost codi arian yn cynnwys costau gweithgareddau masnachol, costau codi arian a ffioedd rheoli buddsoddiadau.
- Mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys costau cynnal a chadw casgliadau, cadwraeth, addysg ac arddangosfeydd a gweithgareddau eraill a gynhaliwyd i hyrwyddo dibenion yr elusen.
- Mae gwariant arall yn cynrychioli'r eitemau hynny nad ydynt yn perthyn i unrhyw benawdau eraill.

(d) Trafodion Arian Cyfred Tramor

Mae Asedau a Rhwymedigaethau mewn arian tramor wedi cael eu trosi yn unol â'r gyfradd gyfnewid a oedd mewn grym ar ddyddiad y fantolen. Mae trafodion mewn arian cyfred tramor yn cael eu cofnodi ar y gyfradd sydd mewn grym adeg y trafodiad.

(e) Buddsoddiadau

Datganir buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Caiff enillion a cholledion wrth waredu eu credydu neu eu cofnodi yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol. Bydd symudiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiad hwnnw yn unol â'r Datganiad o'r Arferion a Argymhellir yng nghyswllt Cyfrifyddu ar gyfer Elusennau.

(f) Asedau Diriaethol

Dangosir Tir ac Adeiladau yn ôl gwerth y defnydd cyfredol ohonynt neu gost eu hadnewyddu ar ôl dibrisiant yn achos adeiladau arbenigol. Ceir prisiad allanol bob pum mlynedd, a defnyddir mynegeion priodol i newid y prisiad hwnnw yn ystod y blynyddoedd yn y canol neu, os bu newid sylweddol yng ngwerth yr asedau, gellir gwneud cais am brisiad rhwng y cyfnodau hyn. Cofnodir enillion a cholledion sy'n deillio o ailbrisio yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol yn y flwyddyn y byddant yn digwydd.

Caiff asedau sefydlog cerbydau modur, offer, peiriannau a chyfarpar unigol sy'n costio £5,000 neu fwy eu cyfalafu ar gost, oni bai bod y cyfarpar yn rhan o grŵp o asedau, rhwydwaith neu brosiect sy'n werth mwy na £5,000. Bydd yr asedau yn colli'u gwerth dros amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol ar sail llinell syth.

Darperir dibrisiant yn llawn yn y flwyddyn gaffael, ar gyfraddau a fydd yn lleihau pob ased i amcangyfrif o'i werth gweddilliol yn wastad dros ei oes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig, yn unol â chyngor y priswyr, fel a ganlyn:

Adeiladau rhydd-ddaliad	- hyd at 125 mlynedd
Offer, peiriannau a chyfarpar	- hyd at 30 mlynedd
Offer cyfrifiadurol	- hyd at 8 mlynedd
Cerbydau Modur	- hyd at 5 mlynedd

Nid yw tir rhydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio.

Nid yw Pryniannau i'r Casgliadau yn cael eu dibrisio.

(g) Asedau Treftadaeth

Cyn 1 Ebrill 2001, nid oedd casgliad y Llyfrgell wedi'i gyfalafu yn y fantolen. Rhoddwyd pryniannau i'r casgliad dan bennawd Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol ym mlwyddyn eu caffael. Caiff pryniannau ar gyfer y casgliad eu cyfalafu ym mlwyddyn eu caffael a'u cadw ar eu gwerth hanesyddol; ni chaiff yr asedau hyn eu hailbrisio na'u mynegeio.

Rhoddir cyfrif am eitemau sy'n cael eu rhoi yn rhoddion i'r casgliadau pan gânt eu derbyn ar ragamcan o'u gwerth ar y farchnad. Nid yw'r asedau hyn yn cael eu hailbrisio na'u mynegeio.

Nid yw Asedau Treftadaeth yn cael eu dibrisio gan fod iddynt oes amhenodol.

Bydd gwerth ased ar bapur (*carrying amount*) yn cael ei adolygu dim ond lle ceir tystiolaeth o amhariad (*impairment*).

(h) Stociau

Mae cost stociau o eitemau y gellir eu hailwerthu wedi'i chydnabod yn y fantolen yn ôl y gost neu'r gwerth gwireddadwy net, pa un bynnag yw'r isaf.

(i) Costau Pensiwn

Mae gan y Llyfrgell ei chynllun pensiwn ei hun sy'n darparu buddion sy'n seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol. Cofnodir cyfraniadau i'r cynllun yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol er mwyn lledaenu cost pensiynau dros fywydau gweithio'r gweithwyr. Cyfrifir yr hyn a gofnodir yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol ar sail cost gwasanaeth cyfredol fel y'i cyfrifir gan actiwari'r cynllun.

(j) Tâl gwyliau staff

Ar ddiwedd y flwyddyn, mae hawl gwyliau staff nad yw wedi'i chymryd eto ac a gaiff ei chario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf wedi'i hystyried yn y cyfrifon yn unol â gofynion FRS102.

(k) Trethiant

Mae Cyllid a Thollau EM wedi rhoi statws elusennol i'r Llyfrgell ac felly mae wedi'i heithrio rhag treth ac incwm ac enillion sy'n rhan o adran 505 o Ddeddf Trethi 1988 neu adran 252 o Ddeddf Trethu Enillion Trethadwy 1992 i'r graddau bo'r rhain yn berthnasol i'w gwrthrychau elusennol. Mae Treth ar Werth nad yw'n adferadwy sy'n deillio o wariant ar weithgareddau anfasnachol yn cael ei chofnodi yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol neu ei chyfalafu os yw'n gysylltiedig ag ased sefydlog.

(l) Cysoni â GAAP blaenorol

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu sy'n ofynnol o dan FRS102 a'r SORP Elusennau, a oedd angen ailddatgan eitemau cymharol.

Ar ddyddiad y trawsnewid o ran cymhwyso'r gofyniad i gydnabod y rhwymedigaeth sy'n deillio o fuddion gweithwyr, cydnabuwyd rhwymedigaeth ar gyfer absenoldebau digolledol byrdymor a oedd yn deillio o hawl gweithiwr i gael gwyliau blynyddol â thâl. Cydnabuwyd y rhwymedigaeth gychwynnol ar ddyddiad y trawsnewid ar gyfer yr hawl i wyliau a gariwyd ymlaen ac ar gyfer yr hawl a oedd yn codi yn ystod y flwyddyn a oedd yn ddyledus ond nas defnyddiwyd. Roedd y rhwymedigaeth gychwynnol ar gyfer £161,838. Yn unol â gofynion FRS102, darperir y balansau agoriadol wedi'u cysoni.

Cysoni'r balansau a'r cronfeydd grŵp	31 Mawrth 2015
	£'000
Balansau'r gronfa fel y nodwyd yn flaenorol	88,624
Absenoldebau digolledol byrdymor	162
Balansau'r gronfa wedi'u hailddatgan	88,462

(m) Busnes Byw

Paratowyd cyfrifon y Llyfrgell ar sail busnes byw. Er bod swm y grantiau y bydd y Llyfrgell yn eu cael yn y dyfodol wedi lleihau, mae'r amcanestyniadau presennol yn amcangyfrif y gall y Llyfrgell barhau gyda'i gweithgareddau presennol gyda chronfeydd preifat yn ariannu'r diffygion ariannol. Nid oes ansicrwydd perthnasol arall ynghylch gallu'r elusen i barhau.

2. GRANTIAU'R LLYWODRAETH

	2015/16	2014/15 Ailddatgan
	£000	£000
Anghyfyngedig		
Cymorth Grant*	**9,705**	10,541
Cyfyngedig		
Grant Prynu	**305**	305
Cyfalaf - Cyffredinol	**632**	483
Cyfalaf - Mewnlenwi'r Iard	**200**	3,300
Diwylliant / Busnes	**20**	-
Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli	**255**	263
Casgliad y Werin Cymru	**165**	224
ARCW	**52**	111
Cynefin	**20**	20
Y Rhyfel Mawr	**213**	275
Cymru yn y Rhyfel	**51**	25
Cyfanswm y grant a gafwyd gan Lywodraeth Cymru	**11,618**	15,547

*Derbyniwyd £270,000 yn ychwanegol o Gymorth Grant yn 2015/16 a bydd y cymorth grant yn cael ei leihau £170K yn 2016/17
Derbyniwyd £600,000 yn ychwanegol o Gymorth Grant yn 2014/15 a bydd y cymorth grant yn cael ei leihau £300K yn 2015/16

3. GRANTIAU ERAILL

	2015/16	2014/15
	£000	£000
Cyhoeddus cyfyngedig		
Cyfalaf	**-**	47
Grantiau'r UE	**91**	280
Cynefin	**205**	56
Datgloi Treftadaeth Ffilm (British Film)	**83**	125
Prifysgol Cymru (Cadair Ddigidol)	**-**	75
Cymru yn y Rhyfel (grant anllywodraethol)	**13**	78
Mân grantiau eraill	**49**	105
	441	766
Preifat anghyfyngedig		
Scottish Power	**21**	-
	21	-
Cyfanswm y grantiau eraill	**462**	766

4. INCWM O WEITHGAREDDAU MASNACHOL ERAILL

	2015/16	2014/15
	£000	£000
Anghyfyngedig		
Arlwyo	**221**	211
Incwm o'r siop	**92**	95
Digwyddiadau	**21**	18
Ymgynghoriaeth a systemau	**27**	-
Llog Banc	**-**	1
Incwm a grëwyd o gasgliadau	**76**	127
Trwyddedu a breindaliadau	**62**	64
Amrywiol	**56**	50
Maes Parcio	**14**	6
	569	572

5 DADANSODDIAD O WARIANT

	Costau Staff	Costau Uniongyrchol eraill	Dibrisiant	**2015/16**	2014/15
				Cyfanswm	Cyfanswm
	£000	£000	£000	**£000**	£000
Costau codi arian	382	374	68	**824**	797
Gwariant Elusennol					
Casglu	1,428	875	190	**2,493**	2,395
Darparu Mynediad a Gwybodaeth	2,243	526	252	**3,021**	3,396
Rhoi Cyhoeddusrwydd a Dehongli	1,399	631	137	**2,167**	2,332
Cadwraeth a Diogelu	2,642	402	255	**3,299**	3,111
Llywodraethiant	413	528	92	**1,033**	1,440
Eitem eithriadol	78	504	-	**582**	2,132
	8,585	3,840	994	**13,419**	15,603

Newidiwyd strwythur adrannau'r Llyfrgell ar 1 Ebrill 2015 o 3 cyfarwyddiaeth i 2 gyfarwyddiaeth ac felly mae'r broses o ddyrannu costau wedi newid yn unol â hynny.

6. DADANSODDI'R COSTAU CEFNOGI

Mae'r Llyfrgell yn nodi costau ei swyddogaethau cefnogi i ddechrau. Yna mae'n nodi'r costau hynny sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth llywodraethiant. Ar ôl nodi ei chostau llywodraethiant, caiff y costau cefnogi sy'n weddill eu dosrannu rhwng costau codi arian a'r pedwar prif weithgarwch elusennol a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Caiff costau cyflogau cefnogi eu dosrannu yn unol â chostau cyflogau ar gyfer pob adran, gyda chostau cefnogi nad ydynt yn ymwneud â staff yn cael eu dosrannu yn seiliedig ar wariant ar weithgarwch.

	Costau cynhyrchu cronfeydd	**Casglu**	**Darparu Mynediad a Gwybodaeth**	**Rhoi Cyhoeddusrwydd a Dehongli**	**Cadwraeth a Diogelu**	**Llywodraethiant**	**Cyfanswm**
	£000	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**
Cefnogaeth	4		13	21	13	25	80
Weithredol		4					
Cyllid	8		26	34	23	37	138
		10					
Adnoddau	11		32	35	26	37	156
Dynol		15					
TGCh	71		222	256	186	278	1,112
		99					
Yr Adeilad	115		329	299	248	300	1,471
		180					
Arall	1		6	9	5	10	33
		2					
	210		628	654	501	687	2,990
		310					

7. (GWARIANT) / INCWM NET AM Y FLWYDDYN

	2015/16	2014/15
Caiff hyn ei nodi ar ôl codi tâl am y canlynol:	**£000**	£000
Dibrisiant	**994**	1,051
Llog a thaliadau'r banc	**-**	-
Tâl yr Archwilydd	**28**	28
Gwasanaethau cyfrifyddu	**8**	11
Ffioedd archwilio mewnol	**23**	14
Adroddiadau llywodraethiant eraill	**20**	-
Ffioedd rheoli buddsoddiadau	**34**	30

8. DADANSODDIAD O GOSTAU STAFF, TALIADAU A THREULIAU YMDDIRIEDOLWYR A CHOSTAU PERSONÉL RHEOLI ALLWEDDOL

(a) Cyfanswm Costau Staff

		Ailddatgan
	2015/16	2014/15
	£000	£000
Cyflogau	**6,077**	6,272
Costau Nawdd Cymdeithasol	**408**	460
Cost Gwasanaeth Cyfredol	**1,580**	1,693
	8,065	8,425
Addasiad cost gwasanaeth cyfredol FRS102 (gweler nodyn 22)	**520**	380
Tâl llog cyllid FRS102 (gweler nodyn 22)	**170**	320
	8,755	9,125

Nid oedd dim contractwyr byrdymor nac asiantaethau wedi'u cyflogi.

Ar wahân i'r staff a nodwyd yn 8 © roedd un aelod o staff yn ennill dros £60,000 (cyflog sylfaenol, lwfansau a thâl gwyliau dyledus).

Ceir manylion y taliadau colli swydd i staff yn nodyn 23.

(b) Y Cynllun Pensiwn

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu cynllun pensiwn a ariennir, sy'n gynllun pensiwn buddion diffiniedig, sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol pensiynadwy adeg oedran ymddeol arferol o 60. Bydd cyfraniadau'r aelodau sy'n gadael y cynllun ac sydd wedi cyfrannu am lai na 2 flynedd yn cael eu had-dalu iddynt. Mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/80^{fed} o'r cyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sydd gyfwerth â thair blynedd o bensiwn pan fydd gweithiwr yn ymddeol. Pan fydd aelod yn marw, mae pensiynau'n daladwy i'r partner priod ar gyfradd o hanner pensiwn yr aelod. Os bydd aelod yn marw ac yntau'n dal yn y swydd mae'r cynllun yn talu cyfandaliad. Mae ymddeol ar sail feddygol yn bosibl os bydd rhywun yn ddifrifol wael.

Cedwir asedau'r Cynllun ar wahân i rai'r Llyfrgell ac fe'u buddsoddwyd gyda Legal and General, sy'n rheoli portffolio o fondiau ac ecwitïau, ar sail oddefol yn bennaf. Cynhaliwyd y prisiad actiwaraidd diweddaraf ar 31 Mawrth 2013. Cyhoeddir datganiad yr actiwari yng Nghyfrifon Blynyddol Cronfa Bensiwn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Cost y pensiwn a dalwyd dros y cyfnod oedd £1.58m (2014/15 £1.69m). Dangosai'r prisiad actiwaraidd ar 31 Mawrth 2013 fod gwerth asedau'r Cynllun ar y farchnad yn £46.82m ac nad oedd gwerth actiwaraidd yr asedau hynny'n fwy na 105% o werth rhwymedigaethau'r Cynllun. Mae nodyn 22 yn rhoi rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol y cynllun pensiwn er mwyn cydymffurfio â gofynion FRS102.

Yn 2006/07, rhoddodd Llywodraeth Cymru Warant y Goron i'r Cynllun, sy'n eithrio'r Cynllun rhag y Gronfa Diogelu Pensiynau a'r ardoll gysylltiedig.

(c) Talu'r Tîm Gweithredol

Pennir cyflog cyfunol y Llyfrgellydd gan swyddogion y Llyfrgell, yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r dyfarniad cyflog cyfunol uchaf ar gyfer Prif Weithredwyr. Roedd cyflog y Llyfrgellydd 3.91 gwaith yn fwy na chyflog canolrif (£23,003) y Llyfrgell. Mae uwch aelodau staff eraill yn derbyn cyflog gros, y penderfynir arno fel rhan o'r broses o negodi'r cylch cyflog ar gyfer holl aelodau staff eraill y Llyfrgell. Mae'r Llyfrgellydd ar gontract tymor sefydlog ac mae gan yr holl uwch staff eraill gontractau cyflogaeth parhaol ac maent yn aelodau cyffredin o gynllun pensiwn y Llyfrgell.

Cyfrifir gwerth buddion pensiwn fel a ganlyn:

- (gwir gynnydd yn y pensiwn* x20) + (gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad*) – (cyfraniadau gan yr aelod)

*heb gynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

Mae'r lluosydd 20 yn cael ei bennu yn y gofynion datgelu. Mae'r Llyfrgell wedi defnyddio'r ffigur hwn i gydymffurfio â'r canllawiau.

Nid yw hwn yn swm sydd wedi'i dalu i unigolyn gan y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn; cyfrifiad ydyw sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Mae llawer o bethau'n gallu dylanwadu ar y ffigurau

hyn e.e. newidiadau i gyflog unigolyn, a yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog neu beidio a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn gyffredinol.

Rhoddwyd y taliadau canlynol i aelodau'r Tîm Gweithredol:

	2015/16				2014/15			
	Cyflog Cyfunol £	**Cyflog heb ei Gyfuno £**	**Cynnydd/ (gostyngiad) gwirioneddol mewn Buddion Pensiwn £**	**Un Cyfanswm Tâl £**	**Cyflog Cyfunol £**	**Cyflog heb ei Gyfuno £**	**Cynnydd (gostyngiad) gwirioneddol mewn Buddion Pensiwn £**	**Un Cyfanswm Tâl £**
Yr Athro AG Jones Llyfrgellydd (1/4/14 - 31/8/15)	37,500	3,115	11,050	51,665	90,000	-	25,530	115,530
Ms Linda Tomos Llyfrgellydd (2/11/15–31/3/16)	37,250	-	10,580	47,830	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.
Ms A Jones Cyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus (1/04/14 -31/3/16)	64,175	12,534	67,610	144,321	63,178	2,723	22,300	88,201
Mr DH Michael Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol (1/04/14 -31/3/16)	64,175	8,166	61,860	134,201	63,178	2,966	12,180	78,324
Mr Pedr ap Llwyd – Ysgrifenyddiaeth (1/04/15 -31/3/16)	57,273	1,552	40,250	99,075	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.
Mrs M Foster Cyfarwyddwr Dros-dro Gwasanaethau Cyhoeddus (14/04/14 - 20/12/14)	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	35,360	1,403	8,520	45,283
Mr. R A Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus (1/4/14-30/4/14)	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	5,166	4,292	1,160	10,618

Mae hawliau pensiwn uwch staff y Llyfrgell sy'n gyfrifol am redeg adrannau llunio polisïau yn cael eu datgelu fel a ganlyn:-

	Gwerth Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/15	Cyfanswm Pensiwn Cronedig ar 31/3/16	Cyfan-daliad ar 31/3/16	Gwerth Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/16 neu ddyddiad gadael y cynllun os yw'n gynharach	Cynnydd mewn pensiwn cronedig net o chwyddiant	Cynnydd yn y cyfandaliad net o chwyddiant	Cynnydd (Gostyngiad) yn y gwerth trosglwyddo net o chwyddiant
	£	£	£	£	£	£	£
Yr Athro AG Jones Llyfrgellydd	44,060	2,350	7,050	57,340	480	1,450	13,320
Ms L Tomos	-	460	1,380	10,180	460	1,380	10,180

Llyfrgellydd Ms A Jones	574,830	29,560	88,680	708,880	2,940	8,810	134,620
Cyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus							
Mr DH Michael	293,160	18,520	55,560	370,650	2,690	8,060	77,780
Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol							
Mr P ap Llwyd – Ysgrifenyddiaeth	190,070	10,110	30,330	244,320	1,750	5,250	54,440

Mae Cynllun Pensiwn Staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gynllun cyflog terfynol a ariennir. Y cyfandaliadau a phensiynau cronedig yw'r symiau a fyddai'n cael eu talu o Ddyddiad Arferol Ymddeol pe bai'r aelod yn gadael y gwaith ar y dyddiad perthnasol. Y Gwerth Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth buddion y cynllun pensiwn wedi'i gyfalafu a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg, wedi'i asesu gan actiwari, gan gynnwys unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol a throsglwyddiadau gwasanaeth i'r cynllun. Mae'r gwerthoedd trosglwyddo wedi cael eu cyfrifo yn unol â nodyn canllaw "GN11" a gyhoeddir gan Sefydliad yr Actiwariaid a Chyfadran yr Actiwariaid. Tybiwyd mai cyfradd chwyddiant pris oedd 1.2%

Setliad

Talodd y Llyfrgell setliad yn lle cyfnod rhybudd o dri mis, sef £22,500 i'r Athro A G Jones ym mis Tachwedd 2015 ar ôl iddo adael ym mis Awst 2015.

(d) **Cofrestr Rhoddion**

Mae gan y Llyfrgell gofrestr rhoddion hefyd. Nid oes dim eitem a nodwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei hystyried o fudd perthnasol i'r datganiadau ariannol hyn.

9. NIFEROEDD STAFF

Nifer y pen bob mis, ar gyfartaledd, oedd 265 (2015: 280) a nifer y staff cyfwerth ag amser llawn, ar gyfartaledd, a gyflogwyd gan y Llyfrgell (yn cynnwys staff achlysurol a rhan amser) yn ystod y flwyddyn oedd:

		Ailddatgan
Niferoedd staff	**2015/16**	2014/15
Masnachu i godi arian	**11.8**	11.6
Casglu	**48.4**	54.8
Darparu Mynediad a Gwybodaeth	**45.4**	47.9
Rhoi Cyhoeddusrwydd a Dehongli	**33.9**	42.2
Cadwraeth a Diogelu	**90.8**	95.1
Llywodraethiant	**11.9**	15.4
Cyfanswm	**242.2**	267.0

Mae'r niferoedd uchod wedi'u hailddatgan i adlewyrchu'r staff a gyflogwyd yn y strwythur diwygiedig mewn gwirionedd - er bod staff cymorth wedi'u dyrannu yn seiliedig ar nifer y pen.

Nid yw'r Bwrdd yn derbyn tâl. Cyfanswm y costau teithio, cynhaliaeth a lletygarwch a wariwyd gan y Llyfrgell ar ei haelodau o'i phwyllgorau oedd £5,014 (2014/15 £6,458), a hawliwyd hwn gan 10 aelod.

10 ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

	Tir Rhydd-ddaliad ac Adeiladau	Peiriannau, Ffitiadau a Chyfarpar	Cerbydau Modur	Technoleg Gwybodaeth	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000
Cost a Phrisio					
Ar 1 Ebrill 2015	58,807	3,070	13	6,327	68,217
Ychwanegiadau	3,113	135	-	173	3,421
Gwarediadau	-	(70)	-	(776)	(846)
Mynegeio	4,009	4	-	16	4,029
Ar 31 Mawrth 2016	65,929	3,139	13	5,740	74,821
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2015	85	2,583	13	3,964	6,645
A godwyd am y flwyddyn	624	108	-	262	994
Gwarediadau	-	(69)	-	(776)	(845)
Mynegeio	11	2	-	5	18
Ar 31 Mawrth 2016	720	2,624	13	3,455	6,812
Gwerth Llyfr Net					
Ar 31 Mawrth 2016	**65,209**	**515**	**-**	**2,285**	**68,009**
Ar 31 Mawrth 2015	58,722	487	-	2,363	61,572

Cyfalafwyd cyflogau 50 aelod o staff, sef cyfanswm o £97,317, yn ymwneud â symud staff y Comisiwn Brenhinol.

Cafodd adeiladau, tir rhydd-ddaliadol a chyfarpar y Llyfrgell eu prisio'n broffesiynol gan Cooke ac Arkwright, Syrfewyr Siartredig, ar 31 Mawrth 2012 yn unol â Llawlyfr Arfarnu a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Prisiwyd adeiladau ar sail eu "gwerth ar y farchnad agored" neu "gost eu hadnewyddu wedi'i dibrisio", a dangosir y tir fel "gwerth y defnydd cyfredol ohono". Mae gwerth yr adeiladau wedi'i fynegeio yn unol â'r mynegai BCIS All-In TPI. Prisiwyd y cyfarpar ar sail ei werth i'r Llyfrgell a'i fynegeio yn ôl y mynegai CPI. Cafodd Trydydd Adeilad y Llyfrgell ei ailbrisio ar gyfer amhariad ar 31 Mawrth 2015 gan Cooke ac Arkwright oherwydd y difrod a achoswyd gan y tân a'r gwaith atgyweirio sy'n cael ei wneud.

Defnyddiwyd pob ased diriaethol i hyrwyddo gweithgareddau elusennol y Llyfrgell.

11. BUDDSODDIADAU

	2015/16	2014/15
	£000	£000
Gwerth ar y farchnad ar 1 Ebrill	**7,589**	5,880
Caffaeliadau yn ôl eu cost	**1,527**	2,495
Llai: Elw o waredu a Buddsoddiadau'n Aeddfedu	**(1,203)**	(1,214)
Elw o Waredu	**155**	180
(Colled) /Elw heb ei wireddu wrth ailbrisio	**(381)**	248
Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth	**7,687**	7,589
Arian yn cael ei gadw ar gyfer buddsoddi	**991**	772
	8,678	8,361

Cost hanesyddol y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2016 oedd £6.803m (2014/15 £6.315m).

	Giltiau, bondiau, dyledebion a blaengyfrannau £	Buddsoddiadau drwy unedau, ecwitïau, eiddo ac asedau amgen £	Ecwitïau'r DU a fuddsoddwyd yn uniongyrchol ar farchnad stoc y DU £	Cyfanswm £
Rhif 1	1,283,054	1,980,959	3,127,171	6,391,184
Rhif 2	952,668	232,429	110,720	1,295,817
	2,235,722	2,213,388	3,237,891	7,687,001

Wrth benderfynu ar yr enillion y mae'r Llyfrgell am eu cael o'i phortffolio, a'r cydbwysedd rhwng incwm a thwf cyfalaf, mae'r Llyfrgell yn fodlon derbyn y bydd risgiau'n gysylltiedig â buddsoddi cronfeydd a fydd yn fwy na'r risg sy'n gysylltiedig â dim ond rhoi arian i gadw. Mae'r Llyfrgell yn fodlon derbyn y rhain gyhyd â'u bod o fewn lefelau derbyniol.

"Canolig" yw'r gair gorau i ddisgrifio archwaeth risg y Llyfrgell. Er mwyn sicrhau enillion gwell, mae'r Llyfrgell yn fodlon derbyn bod yn rhaid cymryd risgiau. Ond bydd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn ystyried sefyllfa'r Llyfrgell fel elusen a ariennir yn bennaf gan grant oddi wrth y Llywodraeth ac o'r herwydd y safonau stiwardiaeth sydd ynghlwm wrth hynny. Felly bydd y risgiau wrth fuddsoddi'n cael eu lleddfu gan y canlynol:

- **Dyrannu Asedau** - strategaeth dyrannu asedau nad yw'n peri bod yr arian yn rhy agored i amrywiadau mewn un sector penodol o'r sbectrwm buddsoddi - h.y. bydd cydbwysedd yn cael ei daro rhwng niferoedd y bondiau, ecwitïau, arian a buddsoddiadau eraill gan gynnwys eiddo, a buddsoddiadau yn y DU a heb fod yn y DU.
- **Ansawdd buddsoddiadau** - dim ond buddsoddiadau o ansawdd uchel y bydd y Llyfrgell yn eu hystyried megis giltiau a bondiau gradd buddsoddi neu ecwitïau a buddsoddiadau ar y cyd yn y FTSE 350.

12. Asedau Treftadaeth

Cyfalafir pryniannau ar gyfer yr Asedau Treftadaeth ar sail cost hanesyddol.

Prynwyd yn ystod y flwyddyn:

	Llyfrau	**Tanysgrifiadau**	**Lluniau Llawysgrifau a Mapiau**	**Eraill**	**Casgliadau Digidol**	**NSSAW**	**Cyfanswm**
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar 01/04/2015	1,726	2,490	10,179	380	4,370	290	19,435
Ychwanegiadau	62	109	122	-		10	303
Rhoddion	1		127			19	147
Ar 31/03/2016	1,789	2,599	10,428	380	4,370	319	19,885

Crynodeb ariannol pum mlynedd o'r ychwanegiadau:

	2015/16 £000	2014/15 £000	2013/14 £000	2012/13 £000	2011/12 £000
Llyfrau	**63**	81	38	34	81
Tanysgrifiadau	**109**	63	106	98	102
Lluniau, Llawysgrifau a Mapiau	**249**	137	192	673	347
Eraill	**-**	-	-	-	-
Casgliadau Digidol	**-**	194	300	547	1,011
NSSAW	**29**	6	8	7	7
Cyfanswm yr Ychwanegiadau	**450**	481	644	1,359	1,548

Mae gan y Llyfrgell bolisi y cytunwyd arno ar gyfer prynu, diogelu, a rheoli asedau treftadaeth. Mae copi o'r polisi ar gael gan y Cyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus. Nid yw'r Llyfrgell yn rhoi benthyg eitemau i ddefnyddwyr, ond mae modd cael gweld y casgliadau yn ystafelloedd darllen a mannau arddangos yr adeilad, a hefyd ar-lein.

Ni chyfalafwyd unrhyw gyflogau yn ystod y cyfnod (2014-15: Cyfalafwyd cyflogau 10 aelod o staff, sef cyfanswm o £194,032, a oedd yn gyfrifol am ddigido archif ITV). Yn 14/15, gwnaeth y Llyfrgell ddigido rhestr o Fapiau, Ewyllysiau, Llawysgrifau a rhywfaint o ddeunydd graffigol. Mae'r holl gostau wedi cael eu cyfalafu o dan y categori casgliadau digidol yn yr asedau treftadaeth.

Ers 1911, mae gan y Llyfrgell hawl i dderbyn copi o bob llyfr, cylchgrawn, papur newydd a deunydd print arall a gyhoeddir yn y DU ac Iwerddon. Deunydd o ddiddordeb Cymreig a Cheltaidd y mae'n ei gasglu'n bennaf. Mae ei chasgliadau ar hyn o bryd yn cynnwys:

Deunydd Print: sy'n amrywio o *Yny lhyvyr hwnn,* y llyfr cyntaf yn yr iaith Gymraeg (a argraffwyd yn 1546) i raglenni digwyddiadau lleol megis cyngherddau a sioeau. Mae gan y Llyfrgell dros 6 miliwn o gyfrolau print.

Llawysgrifau ac archifau: sy'n cynnwys eitemau amhrisiadwy o'r Canol Oesoedd fel Llyfr Llandaf, llawysgrif Chaucer Hengwrt, Llyfr Du Caerfyrddin yn ogystal â 'Cyfreithiau Hywel Dda' a brynwyd yn ddiweddar. Ceir yno hefyd ffynonellau dogfennol o'r Canol Oesoedd hyd heddiw, megis cofnodion sy'n gysylltiedig ag eglwysi a chapeli yng Nghymru gan gynnwys Cofnodion Plwyfi ac ewyllysiau. Mae hefyd yn derbyn traethodau ymchwil gan brifysgolion Cymru, archifau cyrff cyhoeddus a phapurau personol Cymry enwog o bob cefndir. Y mae dros 30,000 cyfrol o lawysgrifau, 4 miliwn o ddogfennau archif a 50 o drysorau celf yn y Llyfrgell.

Mapiau: Hynafiaethol a modern ac atlasau, mapiau Arolwg Ordnans, siartiau moroedd, mapiau ffermydd, ystadau a mapiau degwm, cynlluniau rheilffordd a gwasanaethau cyhoeddus. Mae gan y Llyfrgell dros 1.5 miliwn o fapiau.

Lluniau: yn portreadu pobl a llefydd yng Nghymru gan gynnwys paentiadau, printiau, ysgythriadau a lluniau eraill. Mae'r casgliadau hyn yn cynnwys dros 60,000 o luniau a 4,000 o ddarnau celf wedi'u fframio.

Ffotograffau: o'r ffotograff cynharaf a dynnwyd yng Nghymru, daguerroteip o Gastell Margam, a dynnwyd yn 1841, i waith Mary Dillwyn, John Thomas, D. C. Harries a Geoff Charles. Mae gan y Llyfrgell oddeutu 950,000 o ffotograffau yn ei chasgliad.

Adnoddau electronig a delweddau digidol: Mae'r casgliadau newydd hyn sydd wedi'u creu'n bennaf gan y Llyfrgell yn cynnwys dros 5 miliwn o ddelweddau.

Mae gan **Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru** dros 250,000 awr o recordiadau sain, 300,000 awr o ddelweddau symudol, 7 miliwn troedfedd o ffilm, 200,000 eitem o Archif ffilm a theledu ITV a 15km o archif unigryw. Yn eu mysg y mae darllediadau teledu a radio, recordiadau ffilm amatur a sain, recordiau, casetiau a CDs, ffilmiau a fideos masnachol.

13 DYLEDWYR - yn ddyledus o fewn blwyddyn

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2015
	£000	£000
Dyledwyr Masnach	**47**	142
Ad-daliad TAW yn ddyledus	**447**	274
Rhagdaliadau*	**699**	1,154
Dyledwyr Eraill ac Incwm Cronedig	**159**	242
Incwm Cronedig Cronfeydd Preifat	**36**	32
	1,388	1,844

*Yn cynnwys rhagdaliad o £250k (2014/15: £700K) i'r Cynllun Pensiwn

14 (a) CREDYDWYR - Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn

		Ailddatgan
	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2015
	£000	£000
Credydwyr Masnach	**166**	201
Croniadau ac incwm gohiriedig	**325**	880
Buddsoddi i Arbed*	**25**	500
Incwm gohiriedig Cronfeydd Preifat	**78**	131
Croniadau tâl gwyliau **	**125**	162
	719	1,874

*Derbyniwyd £500,000 o arian Buddsoddi i Arbed yn 2014/15 i helpu i ariannu treuliau dileu swyddi a dalwyd yn ystod y flwyddyn. Ad-dalwyd y swm hwn drwy lai o Gymorth Grant yn 2015/16. Derbyniwyd benthyciad Buddsoddi i Arbed arall gwerth £75,000 yn ystod y flwyddyn i ariannu paneli ffotofoltäig a fydd yn arwain at gostau trydan is. Ad-delir y benthyciad hwn dros 3 blynedd - £25,000 y flwyddyn yn llai o Gymorth Grant yn ddyledus.

**Mae balansau'r credydwyr ar gyfer 2014-15 wedi'u hailddatgan o ganlyniad i ofyniad FRS102 i roi cyfrif am dâl gwyliau yn y datganiad ariannol - yn unol â pholisi 1(j) ar dudalen 28.

14 (b) CREDYDWYR - Symiau a ddaw'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2015
	£000	£000
Buddsoddi i Arbed*	**50**	-
	50	-

*Derbyniwyd gwerth £75,000 o arian Buddsoddi i Arbed sy'n ad-daladwy dros 3 blynedd. Darparwyd yr arian i dalu am baneli ffotofoltäig a fydd yn arwain at gostau trydan is.

15 DADANSODDIAD O'R CRONFEYDD ELUSENNOL

a. Dadansoddiad o symudiad y cronfeydd

	Ar 1 Ebrill 2015	Adnoddau a dderbyniwyd	Adnoddau a Wariwyd	Symudiadau Eraill Yn ystod y flwyddyn	**Ar 31 Mawrth 2016**
	£000	£000	£000	£000	**£000**
CRONFEYDD CYHOEDDUS					
Anghyfyngedig - Pensiwn Cyhoeddus	(5,650)	-	520	(1,240)	**(7,410)**
Anghyfyngedig	(20)	10,274	10,180	35	**109**
Cyfyngedig: -					
Cyfalaf	48,649	832	1,434	-	**48,047**
Cronfa Ailbrisio*	22,852	-	-	4,011	**26,863**
Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli	-	255	255	-	**-**
ARCW	-	52	52	-	**-**
Grant Cydlynydd Gwirfoddoli	-	6	3	(3)	**-**
Casgliad y Werin Cymru	-	194	195	1	**-**
Cynefin	-	225	212	-	**13**
Y Rhyfel Mawr	-	213	204	-	**9**
Cymru yn y Rhyfel	-	64	63	-	**1**
ERDF - Digido ar gyfer Busnes	-	91	77	(14)	**-**
Datgloi Treftadaeth Ffilm - BFI	-	84	84	-	**-**
Europeana	-	13	13	-	**-**
Diwylliant / Busnes	-	20	13	-	**7**
Scottish Power	-	-	17	17	**-**
Grant Prynu	7,447	305	-	-	**7,752**
	73,278	12,628	13,322	2,807	**75,391**
CRONFEYDD PREIFAT					
Anghyfyngedig	7,509	579	40	(168)	**7,880**
Cyfyngedig					
Cronfa casgliadau	6,821	147	-	-	**6,968**
Cronfeydd preifat cyfyngedig a fuddsoddwyd					
D M Phillips	693	17	3	(21)	**686**
W Elwyn Davies	19	1	-	(2)	**18**
Y Fonesig Parry-Williams	34	1	-	(1)	**34**
Noel Jarman	60	2	1	(1)	**60**
Gwyneth Lloyd	2	1	-	(1)	**2**
Betty Brooks	15	-	-	(15)	**-**
Digido	2	-	-	(2)	**-**
Dylan Thomas	21	1	-	(22)	**-**
A E ac M E Owen	8	-		(8)	**-**
Eluned Gymraes Davies	-	53	53	-	**-**
Scottish Power	-	21	-	(21)	**-**
Cyfanswm y Cronfeydd Preifat	15,184	823	97	(262)	**15,648**
CYFANSWM	**88,462**	**13,451**	**13,419**	**2,545**	**91,039**

*Mae'r gronfa ailbrisio wedi'i chyfrifo yn seiliedig ar yr asedau a ailbrisiwyd ers 1999 yn unol â gofyniad FRS102 i nodi'r gronfa ailbrisio ar wahân. Ni chaiff ailbrisiadau cyn 1999 eu cynnwys yn y gronfa hon.

Ymhlith y symudiadau eraill yn ystod y flwyddyn (£2,545k) mae

- (Elw)/colled o werthu buddsoddiadau (£155k)
- Cost cyllid pensiwn - £170k
- (Colledion) / enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau - £381k
- Mynegeio Asedau Sefydlog Diriaethol (£4,011k)
- (Enillion)/colledion actiwaraidd - £1,070k

b. CRONFEYDD PREIFAT (yn cynnwys casgliadau)

	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	Casglu	**Cyfanswm 2015/16**	Cyfanswm 2014/15
	£000	£000	£'000	**£000**	£000
Incwm					
Rhoddion a Chymynroddion	384	54	147	**585**	1,434
Grantiau a dderbyniwyd	-	21	-	**21**	-
Llog sydd i'w Dderbyn	195	22	-	**217**	188
Cyfanswm	579	97	147	**823**	1,622
Adnoddau a Wariwyd					
Costau codi arian	31	4	-	**35**	29
Marchnata, arddangosfeydd, addysg	9	53	-	**62**	12
(Elw)/colled o werthu buddsoddiadau	(139)	(16)	-	**(155)**	(180)
Cyfanswm	(99)	41	-	**(58)**	(139)
Adnoddau net a Dderbyniwyd / (a Ddefnyddiwyd)	678	56	147	**881**	1,761
Trosglwyddo i/o Gronfeydd Cyhoeddus	27	(63)	-	**(36)**	289
	705	(7)	147	**845**	2,050
(Colled)/Elw heb ei wireddu wrth ailbrisio buddsoddiadau	(334)	(47)	-	**(381)**	248
Symudiad net yn y Cronfeydd Preifat yn ystod y flwyddyn	371	(54)	147	**464**	2,298
Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill	7,509	854	6,821	**15,184**	12,886
Cariwyd Ymlaen ar 31 Mawrth	7,880	800	6,968	**15,648**	15,184

16. DADANSODDIAD O'R CRONFEYDD NET RHWNG Y CRONFEYDD

	Cyhoeddus anghyfyngedig £'000	Cyhoeddus cyfyngedig £'000	Preifat anghyfyngedig £'000	Cyhoeddus cyfyngedig £'000	**Cyfanswm £'000**
Asedau Sefydlog Diriaethol	-	80,939	7,878	7,755	**96,572**
Arian yn y banc ac mewn llaw	228	899	2	78	**1,207**
Asedau cyfredol net/(rhwymedigaethau) eraill	(69)	854	-	(65)	**720**
Credydwyr ar ôl mwy na blwyddyn	(7,460)	-	-	-	**(7,460)**
Cyfanswm	(7,301)	82,692	7,880	7,768	**91,039**

17. CYSONI'R (GWARIANT) / INCWM NET Â'R LLIF ARIAN PAROD NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL

		Ailddatgan
	2015/16	2014/15
	£000	£000
(Gwariant) / Incwm net ar gyfer y cyfnod adrodd (fel y datganiad gweithgareddau ariannol)	**17**	3,416
Llai: Elw o werthu buddsoddiadau	**(155)**	(180)
Ychwanegu'n ôl: Addasiad Pensiwn Llog FRS102	**170**	320
Ychwanegu'n ôl: Taliadau dibrisiant	**994**	1,052
(Cynnydd)/Lleihad yn y stoc	**2**	(6)
Rhoddion asedau (dim arian parod)	**(147)**	(210)
Gostyngiad/(Cynnydd) mewn dyledwyr	**456**	(1,091)
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn credydwyr	**(1,105)**	1,459
Costau Cyllid Pensiwn	**520**	380
Llif arian parod net o weithgareddau gweithredol	**752**	5,140

18. CYSONI LLIF ARIAN PAROD NET Â SYMUDIADAU YN Y CRONFEYDD NET

	2015/16	2014/15
	£000	£000
Arian mewn llaw	1,207	5,124
Adneuon rhybudd (llai na 3 mis)	990	772
Cyfleuster gorddrafft yn ad-daladwy ar alw	(1)	(404)
Cronfeydd Net ar 31 Mawrth	**2,196**	**5,492**

19. TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn cafodd y Llyfrgell arian gan y Llywodraeth ar ffurf Cymorth Grant, a Grantiau Prynu, Cyfalaf a Phrosiect fel y'u datgelir yn nodyn 2. Talodd y Llyfrgell y symiau canlynol i Lywodraeth Cymru: -

- Llog a ad-dalwyd - £8,529
- Cost recriwtio ymddiriedolwyr - £3,866

Mae Culturenet yn un o is-gwmnïau segur y Llyfrgell. Yn ystod 2015/16 ni roddodd y Llyfrgell unrhyw daliadau i Culturenet (2014: dim). Mae Culturenet wedi bod yn segur ers 1 Ebrill 2013 ac fe gaeodd ym mis Rhagfyr 2015.

Mae Mr Huw Williams, aelod o'r Bwrdd, yn bartner yn Geldards LLP, sef cynghorwyr cyfreithiol enwebedig y Llyfrgell. Rhoddwyd taliadau gwerth £69,947 (2015: £89,424) i Geldards LLP yn ystod 2015/16 am wasanaethau a roddwyd. Mae hyn yn cynnwys taliad o £7,500 a wnaed i Geldards fel ffi setliad ar gyfer yr ymgyfreitha a nodwyd yn 23B.

Mr Robert Gray, aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio'r Llyfrgell, yw pennaeth y Meistri Francis Gray, a gynorthwyodd y Llyfrgell gyda'i chyfrifon diwedd blwyddyn 2014/15. Roedd cyfanswm y taliadau yn ystod 2015/16 yn £8,537 (2014/15: £13,338).

Ar 31 Mawrth 2016 roedd gan y Llyfrgell ddyledwyr a chredydwyr cyfunol gyda chyrff eraill sy'n derbyn cyllid gan y Llywodraeth fel a ganlyn:

	Dyledwyr £000	**Credydwyr £000**
Cyrff Llywodraeth Ganolog	519	231
Cyrff Llywodraeth Leol	1	6
Cyrff Anllywodraethol	868	482
Cyfanswm	1,388	719

20. PRYDLESI

Ni wnaeth y Llyfrgell unrhyw daliadau prydles yn ystod y flwyddyn na'r flwyddyn flaenorol.

21. DEILLIANNAU - FRS13

Mae'r fantolen yn dangos y Banc yng nghyswllt asedau cyfredol a rhwymedigaethau cyfredol. Mae sefyllfa'r llyfr arian yn dangos bod un cyfrif mewn dyled o £0.001m, tra bo gan y cyfrifon eraill £1.2m (2014-15: £5.124m) mewn llaw. Hon yw'r sefyllfa llyfr arian sy'n ystyried nifer o drafodion nad oedd wedi'u prosesu gan y Banc eto, megis sieciau ac adneuon heb eu clirio. Nid oedd gan y Llyfrgell gyfrif banc yn y coch ar ddiwedd y flwyddyn.

Nid oes gan y Llyfrgell fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar grantiau adrannol ar gyfer ei gofynion arian ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Datgelir yr unig adnau o bwys yn nodyn 11, ac mae'r holl asedau a rhwymedigaethau o bwys mewn sterling, ac felly nid yw'n agored i risg yn ymwneud â'r gyfradd llog neu ag arian cyfred. Yn 2015/16, daeth £11.618m neu 86% o incwm cyfunol y Llyfrgell gan Lywodraeth Cymru (2014/15 £15.547m neu 84%). Daw'r gweddill, £1.833m neu 14% (2014/15 £2.96m neu 16%) o incwm o gronfeydd preifat y Llyfrgell (nodyn 15b), o

weithgareddau masnachu (nodyn 4) ac o grantiau gan gyrff eraill, fel y datgelir yn Nodyn 3 y cyfrifon hyn.

22. COSTAU PENSIWN

Mae gan y Llyfrgell gynllun pensiwn buddion diffiniedig gyda buddion yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Cafwyd y prisiad actiwaraidd llawn diwethaf ar 31 Mawrth 2013 ac aseswyd bod y Cynllun wedi cyrraedd pwynt lle mae wedi'i ariannu'n llawn.

Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016, bu'r Llyfrgell yn cyfrannu at y Cynllun ar gyfradd o 26.6% o gyflogau pensiynadwy a bydd y gyfradd hon yn cael ei defnyddio o hyd yn 2016/17. Bydd y gyfradd gyfrannu ar ôl y dyddiad hwn yn dibynnu ar ganlyniad prisiad yr actiwari ar 31 Mawrth 2016. Disgwylir y bydd cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer 2016/17 yn £1.5 miliwn.

(a) Datblygu Sefyllfa'r Fantolen Net

	31 Mawrth 2016 £m	**Ailddatgan 31 Mawrth 2015** £m
Gwerth teg yr asedau (22b)	**56.47**	56.90
Gwerth actiwaraidd rhwymedigaethau'r cynllun (22c)	**63.88**	62.55
(Rhwymedigaeth) pensiwn a gydnabyddir yn y fantolen	**(7.41)**	(5.65)

(b) Newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 £m	Ailddatgan y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 £m
Asedau'r cynllun ar ddechrau'r flwyddyn	**56.90**	47.68
Budd a dalwyd o asedau'r cynllun	**(2.17)**	(1.90)
Cyfraniadau'r cyflogwr	**1.59**	1.69
Cyfraniadau'r aelodau	**-**	-
Costau gweinyddol	**(0.10)**	(0.09)
Incwm llog ar Asedau'r Cynllun	**2.01**	2.07
Elw ar asedau'r cynllun sy'n fwy/(llai) na'r gyfradd ddisgownt	**(1.76)**	7.45
Asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn - 22a	**56.47**	56.90

(c) Dadansoddiad o'r newidiadau yn y Rhwymedigaethau Buddion Diffiniedig (DBO)

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 £m	Ailddatgan y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 £m
Rhwymedigaethau'r cynllun ar ddechrau'r	**62.55**	55.96

flwyddyn		
Cost llog ar y DBO	**2.18**	2.39
Effaith gwasanaethau'r gweithwyr yn y cyfnod cyfredol	**2.01**	1.98
Cyfraniadau'r aelodau	**-**	-
Budd a dalwyd o asedau'r cynllun	**(2.17)**	(1.9)
Ailfesur y DBO/newid tybiaethau	**(0.69)**	4.12
Rhwymedigaethau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn - 22a	**63.88**	62.55

(d) Symiau a gofnodwyd ar SOFA (Cyfanswm gwariant)

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016	**Ailddatgan y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015**
	£m	£m
Effaith gwasanaethau'r gweithwyr yn y cyfnod cyfredol	**2.01**	1.98
Llog net ar (ased)/rhwymedigaeth buddion diffiniedig net	**0.17**	0.32
Cost y buddion diffiniedig a gydnabyddir yn P&L	**2.18**	2.30
Costau gweinyddu yn ystod y cyfnod	**0.1**	0.09
Costau buddion terfynu	**-**	-
Cyfanswm y gost a gydnabyddir yn SOFA	**2.28**	2.39

(e) (Colledion)/Enillion Actiwaraidd a gofnodwyd yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol:

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016	**Ailddatgan y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015**
	£m	£m
Elw ar asedau'r cynllun sy'n (fwy) / llai na'r gyfradd ddisgownt - 22b	**1.76**	(7.45)
(Elw)/colled actiwaraidd sy'n codi yn ystod y cyfnod - 22c	**(0.69)**	4.12
Cyfanswm (enillion) /colledion actiwaraidd a gydnabyddir yn y cronfeydd wrth gefn	**1.07**	(3.33)

(f) Cyfanswm cost y buddion diffiniedig

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016	Ailddatgan y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015
	£m	£m
Cyfanswm y gost a gydnabyddir yn SOFA - 22(d)	**2.28**	2.39
Effaith yr ailfesur a gydnabyddir yn y cronfeydd wrth gefn 22(e)	**1.07**	(3.33)
Cost y buddion diffiniedig	**3.35**	(0.94)

(g) Cysoni Sefyllfa'r Fantolen Net

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016	Ailddatgan y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015
	£m	£m
(Atebolrwydd) diffiniedig net ar ddechrau'r flwyddyn	**(5.65)**	(8.28)
Effaith gwasanaethau'r gweithwyr yn y cyfnod cyfredol (22c)	**(2.01)**	(1.98)
Llog net ar (ased) / rhwymedigaeth buddion diffiniedig net	**(0.17)**	(0.32)
Effaith yr ailfesur a gydnabyddir yn y cronfeydd wrth gefn 22(e)	**(1.07)**	3.33
Cyfraniadau'r cyflogwr 22b	**1.59**	1.69
Costau gweinyddol	**(0.10)**	(0.09)
Rhwymedigaethau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn - 22a	**(7.41)**	(5.65)

(h) Gwerth Asedau ar y Farchnad a Chanran Cyfanswm Asedau'r Cynllun

	31 Mawrth 2016		31 Mawrth 2015	
	£m	%	£m	%
Ecwitïau	**19.5**	34.6	20.3	35.6
Bondiau	**31.0**	54.8	31.1	54.7
Eiddo	**6.0**	10.6	5.7	10.0
Arall	**-**	-	(0.2)	(0.3)
Cyfanswm gwerth yr asedau	**56.5**		56.9	

(i) Tybiaethau Ariannol

Mae'r tybiaethau ariannol a wnaed er mwyn cyfrifo gofynion datgelu FRS102 fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2015
	% y flwyddyn	% y flwyddyn
Chwyddiant Prisiau	**2.2**	3.2
Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau	**3.7**	3.7
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu*	**2.2**	2.2
Cyfradd y cynnydd ar gyfer pensiynwyr sydd wedi gohirio*	**2.2**	2.2
Cyfradd ddisgownt**	**3.6**	3.55

**yn fwy nag unrhyw elfen GMP (Isafswm Pensiwn Gwarantedig)

**wedi'i ragnodi gan Drysorlys EM

Mae'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir ar gyfer datgeliadau FRS102 yn wahanol i'r un a ddefnyddiwyd gan yr Actiwari ar gyfer yr asesiad ariannol mwyaf diweddar o'r Cynllun ar 31 Mawrth 2013. Bryd hynny, aseswyd bod y Cynllun wedi'i ariannu'n llawn. Bydd y gofyniad i ddefnyddio cyfradd ddisgownt y Trysorlys ar gyfer y datgeliad FRS102 yn golygu y bydd sefyllfa ariannol y Cynllun yn cael ei hasesu'n wahanol dan y mesur hwn o'i gymharu â'r dull a ddefnyddir ym mhrisiad actiwaraidd ffurfiol y Cynllun.

23. EITEMAU EITHRIADOL

A. FFIOEDD YN YMWNEUD Â'R TÂN AR 26 EBRILL 2013

Mae'r costau yn sgîl y tân yn y Llyfrgell wedi cael effaith sylweddol ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn. Mae'r Llyfrgell wedi cyfarwyddo ei chynghorwyr cyfreithiol i wneud hawliad am gostau yn erbyn y contractwr a oedd yn gyfrifol am achosi'r tân. Ond ystyrir y bydd canlyniad yr ymgyfreitha hwn yn rhy ansicr i gydnabod unrhyw gostau a gaiff eu hadennill yn y datganiadau ariannol hyn.

B. SETLIAD

Talwyd setliad o £22,500 i'r Athro A G Jones ym mis Tachwedd 2015 fel y datgelwyd yn 8(b) yn hytrach na chyfnod rhybudd o 3 mis.

Talodd y Llyfrgell £7,500 hefyd fel setliad i gyn-aelod o staff yn dilyn hawliad ymgyfreitha am ddamwain a ddigwyddodd yn y gwaith. Mae'r Llyfrgell yn amcangyfrif bod darpariaeth ar gyfer £15,000 ychwanegol mewn perthynas â ffioedd cyfreithiol yn gysylltiedig â'r achos, a bod taliad yn debygol o gael ei wneud.

C. TÂL DISWYDDO

Talodd y Llyfrgell daliadau diswyddo gwirfoddol i 24 aelod o staff a adawodd ar ôl 31 Mawrth 2016, sef £775,457 ac o'r cyfanswm hwn roedd £77,724 yn ymwneud â 4 aelod o staff y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn 2015-16.

D TRYDYDD ADEILAD Y LLYFRGELL

Gorffennodd y Llyfrgell y gwaith o adnewyddu Trydydd Adeilad y Llyfrgell yn ystod 2015-16 am gost o £439,541. O'r swm yma, talwyd £415,389 i'r contractwr - WRW a £24,152 i'r darparwyr eraill. Cofnodwyd y gwariant hwn yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol fel cronfeydd cyfyngedig cyhoeddus fel eitem eithriadol yn ystod y flwyddyn gyfredol a blaenorol. Gan nad oedd y strwythur wedi cael ei ymestyn, cydnabyddir y gwariant hwn fel eitem eithriadol ac fe'i dilëwyd yn ystod y flwyddyn.

24. YMRWYMIADAU CYFALAF

Ar ddyddiad y fantolen, mae'r ymrwymiadau sy'n weddill fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2015
	£000	£000
Dan gontract - Cam Olaf - Swyddfa Trydydd Adeilad y Llyfrgell - To	**15**	-
Dan gontract - Cam Olaf - Swyddfa Trydydd Adeilad y Llyfrgell - Swyddfeydd	**17**	338
Dan gontract - Comisiwn Brenhinol	**360**	2,253
Dan gontract - Boeleri	**-**	85
	392	2,676

Rhagwelir y bydd yr holl ymrwymiadau a nodwyd ar 31 Mawrth 2016 yn cael eu cyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17, ac eithrio'r ernes sy'n daladwy ar brosiect y Comisiwn Brenhinol a fydd yn cael ei thalu yn 2017/18.